Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Ebrill 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
X: **@SeneddHinsawdd**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Ebrill 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**Hefin David AS** *
Llafur Cymru

* Roedd Hefin David AS yn dirprwyo ar ran Joyce Watson AS yng nghyfarfod y pwyllgor ar 12 Rhagfyr 2024.

# Cynnwys

**Argymhellion ........ 5**

**Cyflwyniad ........ 10**

**1. Y cefndir deddfwriaethol a pholisi........12**

**2. Egwyddorion cyffredinol y Bil........14**

**3. Rhan 1 – Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru ........30**

**4. Rhan 2 – Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir ...40**

Pennod 1 – Cofrestr o domenni nas defnyddir ........40

Pennod 2 – Asesu tomenni nas defnyddir ........ 49

Pennod 3 – Cofrestru a dadgofrestru tomenni nas defnyddir ........ 56

Pennod 4 – Categorïau tomenni nas defnyddir ........ 58

Pennod 5 – Newidiadau hysbysadwy i'r gofrestr ........ 59

Pennod 6 – Darpariaeth atodol ........60

**5. Rhan 3 – Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni ........63**

Pennod 1 – Ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir gynnal gweithrediadau63

Pennod 2 – Gweithrediadau a gynhelir gan yr awdurdod ........67

Pennod 3 – Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau ........73

Pennod 4 – Darpariaeth atodol ........73

**6. Rhan 4 – Darpariaeth Atodol ........75**

**7. Rhan 5 – Cyffredinol ........77**

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar........83**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig........85**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd na fydd y penderfyniad i gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn effeithio ar gyflawni'r drefn newydd yn effeithiol, nac yn arwain at ddargyfeirio adnoddau i ffwrdd o sicrhau diogelwch tomenni glo nas defnyddir. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad manwl o'r ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol a'r systemau sydd ar waith i fynd i'r afael â niwed amgylcheddol a achosir gan domenni nas defnyddir, ac ymrwymo i adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn ac effeithiol. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o sicrwydd:

- bod y ddeddfwriaeth gynllunio bresennol, polisi glo Llywodraeth Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru yn ddigon cadarn i sicrhau na fydd cynigion i adfer tomen nas defnyddir sy'n cynnwys echdynnu glo yn cael eu caniatáu oni bai eu bod at ddibenion sicrhau diogelwch y cyhoedd, a
- bydd polisi glo Llywodraeth Cymru yn atal unrhyw lo a echdynnir yn ystod gwaith adfer rhag cael ei werthu at ddibenion llosgi. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Awdurdod yn gwbl weithredol o 1 Ebrill 2027, gyda'r holl ganllawiau ar waith a'r holl reoliadau angenrheidiol mewn grym erbyn y dyddiad hwnnw. ........ Tudalen 39

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ddwywaith y flwyddyn i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni ei rhaglen waith bresennol i archwilio a chynnal tomenni glo nas defnyddir, sy'n cael ei harwain gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio. ........ Tudalen 39

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliad i'r Awdurdod ymgysylltu â'r sector amgylcheddol a grwpiau cadwraeth natur lleol wrth ddatblygu cynlluniau rheoli. ........ Tudalen 39

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod cynllun corfforaethol yr Awdurdod yn nodi'n glir sut bydd yn ymgorffori ystyried bioamrywiaeth yn ei feddylfryd a'i waith cynllunio busnes. ........ Tudalen 39

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y camau mae'n eu cymryd, drwy weithio gyda'i phartneriaid, gan gynnwys darparwyr addysg a sgiliau, i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a chynrychiolaeth yn y gweithlu a datblygu llwybrau gyrfa addas, i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Bil yn effeithiol. ........Tudalen 39

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddarparu dyletswydd ar yr Awdurdod i greu a chynnal cofrestr gynhwysfawr o'r holl domenni nas defnyddir. ........Tudalen 48

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i:

- wneud rheoliadau ar fonitro ac archwilio tomenni nas defnyddir. Rhaid i'r rheoliadau hyn bennu amlder lleiaf arolygiadau ar gyfer pob categori o domenni, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, a phobl eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn gwneud rheoliadau.

Dylai rheoliadau o'r fath ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol. ........Tudalen 48

**Argymhelliad 12.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn Argymhelliad 11, dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru:

- roi arweiniad i'r Awdurdod ar fonitro ac arolygu, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, a phobl eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn rhoi arweiniad. ........Tudalen 48

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil:

- i roi dyletswydd ar yr Awdurdod i ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir sydd yng nghategori'r rhai sy'n peri pryder mwyaf i'r Awdurdod (categorïau 1 a 2),
- i alluogi'r Awdurdod i ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir sydd yn y categori sy'n achosi'r pryder lleiaf i'r Awdurdod (categorïau 3 a 4), a hefyd
- i gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi isafswm cynnwys cynlluniau rheoli. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i

Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ac eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir. Dylai rheoliadau o'r fath ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol. ........................................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i:

- wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion sylfaenol ar gyfer asesiad rhagarweiniol a llawn. Dylai hyn gynnwys beth fydd asesiad rhagarweiniol a llawn yn ei gynnwys, yr hyn y bydd disgwyl i bob asesiad ei gynnwys, a lleiafswm cynnwys adroddiadau arolygu, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, a rhai eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn gwneud rheoliadau.

Dylai rheoliadau o'r fath ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol. ......................Tudalen 55

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheoliadau ar asesiadau (gweler Argymhelliad 14) yn darparu ar gyfer asesiad rhagarweiniol i gynnwys arolygiad ffisegol. Dylai'r rheoliadau ddarparu nad yw'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal archwiliad ffisegol o domen nas defnyddir sydd wedi ei harolygu yn y ddwy flynedd cyn i'r rheoliadau ddod i rym. ........................................................................Tudalen 56

**Argymhelliad 16.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn Argymhelliad 14, dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i:

- roi arweiniad i'r Awdurdod ar asesiadau rhagarweiniol a llawn, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, ac eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn rhoi arweiniad. ........................................................................Tudalen 56

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyhoeddi adroddiadau o asesiadau rhagarweiniol a llawn. ........................................................................Tudalen 56

**Argymhelliad 18.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn Argymhelliad 17, dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod yr Awdurdod yn:

- cyhoeddi ei gasgliadau o adroddiadau asesiadau rhagarweiniol a llawn, ac yn

- darparu mynediad at adroddiadau o asesiadau rhagarweiniol a llawn ar gais, heb i unigolyn orfod dibynnu ar ei hawl statudol i fynediad at wybodaeth gyhoeddus ac amgylcheddol. ....................Tudalen 56

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn mynd ati i weithredu'r ymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Dylai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â chymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir....................Tudalen 56

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi dyletswydd ar yr Awdurdod i ymgynghori â rhanddeiliaid, arbenigwyr perthnasol ac eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch tomenni nas defnyddir, ar y polisi arfaethedig ar gyfer categoreiddio. ....................Tudalen 59

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad clir i'r Awdurdod roi gwybod i gymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir am unrhyw newid i gategori'r tomenni hynny. ....................Tudalen 60

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau ar hawliadau iawndal, ac i ymgynghori cyn rhoi canllawiau....................Tudalen 62

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod perchnogion tir, a phersonau eraill mae'r newidiadau i'r drefn diogelwch tomenni nas defnyddir sy'n deillio o'r Bil yn effeithio arnynt, yn ymwybodol ac yn deall goblygiadau'r newidiadau hynny....................Tudalen 62

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach y bydd polisi glo Llywodraeth Cymru yn atal gwerthu glo a echdynnir yn ystod y gweithrediadau i sefydlogi tomen nas defnyddir at ddibenion llosgi. ....................Tudalen 67

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau ar apeliadau, ac ymgynghori ar y canllawiau hyn....................Tudalen 67

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i alluogi'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau "ar unwaith" er mwyn osgoi methiant tomenni nas defnyddir heb gael ei dal yn ôl gan ei rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol a chynllunio....................Tudalen 73

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaethau i atal neu reoli gweithgareddau a allai effeithio ar sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir. ........ Tudalen 73

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro:

- pa ystyriaeth a roddwyd i ymestyn y dyletswyddau yn adran 56 a 57 i'r Goron, adrannau perthnasol eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
- a yw'r pwerau mynediad yn y Bil yn ehangach na'r rhai sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan Ddeddf 1969; ac
- a yw'n bwriadu rhoi arweiniad i awdurdodau cyhoeddus (ac eithrio'r Awdurdod newydd) i gefnogi gweithredu'r Bil, a sut buasai'n gwneud hynny. ........ Tudalen 76

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid, cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir, a'r cyhoedd yn ehangach, cyn cyflwyno rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn adran 81(4) a (5). ........ Tudalen 81

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r canlynol mewn perthynas â'r diffiniad o "fygythiad i les dynol":

- a yw "difrod i eiddo" yn cynnwys marwolaeth neu niwed i dda byw ar dir comin, ac
- a yw "tarfu ar gyflenwad dŵr" yn cynnwys llygredd dŵr. ........ Tudalen 82

# Cyflwyniad

**1.** Ar 9 Rhagfyr 2024, cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog), Huw Irranca Davies AS, Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ("y Bil") i'r Senedd. Ar 10 Rhagfyr 2024, fe wnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.

**2.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor), ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, gyda 4 Ebrill 2025 wedi ei nodi fel dyddiad cau ar gyfer adrodd.

## Cylch Gorchwyl

**3.** Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
- Darpariaethau'r Bil, gan gynnwys a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
- Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
- A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
- Goblygiadau ariannol y Bil.

## Y dull craffu a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor

**4.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025 a chafwyd 28 o ymatebion. Roedd 25 o'r rhain gan sefydliadau a thri gan unigolion.[1]

**5.** Fe wnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog ar 12 Rhagfyr 2024 a 6 Mawrth 2025. Yn dilyn cyfarfod 12 Rhagfyr 2024, fe wnaethom ysgrifennu

[1] Mae'r mwyafrif o domenni nas defnyddir mewn perchnogaeth breifat ac nid yw manylion perchnogion ar gael i'r cyhoedd. Gan hynny, nid oedd y Pwyllgor yn gallu ymgynghori â'r perchnogion hyn yn uniongyrchol fel bod modd llywio ei waith craffu ar y Bil. Fodd bynnag, roedd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gael ar wefan y Senedd a chawsant eu hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am ymateb ar faterion ychwanegol na thrafodwyd yn ystod y sesiwn. Mae'r ohebiaeth hon ar gael ar wefan y Senedd.

**6.** Fe wnaethom gynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda thystion allanol, gan gynnwys arbenigwyr cyfreithiol, cynrychiolwyr o awdurdodau cyhoeddus (rhai ohonynt yn berchnogion tomenni nas defnyddir), y sector amgylcheddol, a'r sector mwyngloddio a chwarelu.

**7.** Mae manylion cyflwyniadau ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**8.** Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

## Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

**9.** Clywodd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ar eu meysydd priodol o ddiddordeb. Mae eu hadroddiadau i'w cael ar wefan y Senedd.

# 1. Y cefndir deddfwriaethol a pholisi

## Fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar ddiogelwch tomenni nas defnyddir

**10.** Y fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n darparu ar gyfer diogelwch a sefydlogrwydd gwastraff mwyngloddio yn y Deyrnas Unedig yw Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 (Deddf 1969). Mae Rhan 2 o Ddeddf 1969 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tomenni a adawyd ar ôl gan weithfeydd mwyngloddio a chwareli a adawyd (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel 'tomenni nas defnyddir' *(disused tips)*). Mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad yw'r tomenni nas defnyddir, drwy fod yn ansefydlog, yn beryglus i aelodau o'r cyhoedd.

## Cefndir polisi a datblygiad y Bil

**11.** Yn dilyn tirlithriad ar domen glo nas defnyddir yn Nhylorstown, Rhondda Cynon Taf, ym mis Chwefror 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu Diogelwch Tomenni Glo i gyflwyno rhaglen waith, gan gynnwys adolygu diogelwch tomenni glo ledled Cymru, ac arolygiadau a chynnal a chadw tomenni a allai effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd.

**12.** Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer goruchwylio diogelwch tomenni glo, gan gynnwys asesu effeithiolrwydd y fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn dilyn yr adolygiad, gwahoddodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn y Gyfraith i gynnal asesiad annibynnol o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelwch tomenni glo a darparu argymhellion ar gyfer bil yn y dyfodol.

### Adroddiad Comisiwn y Gyfraith

**13.** Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad, Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru, ym mis Mawrth 2022. Yn gryno, canfu nad yw Rhan 2 o Ddeddf 1969 erbyn hyn yn "darparu fframwaith rheoli effeithiol ar gyfer tomennydd glo anweithredol yn yr unfed ganrif ar hugain". Roedd yr adroddiad yn cynnwys 36 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**14.** Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl i adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

## Y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)

**15.** Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru). Tynnodd ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith a dadansoddiad pellach.

# 2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

## Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo ei chael

**16.** Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mai:

> *"Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl trwy gyflwyno system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru."*

**17.** Amcanion y Bil, a amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol, yw:

- sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd;
- creu a chynnal cofrestr o domenni nas defnyddir sy'n bygwth, neu a allai fygwth, lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd;
- sicrhau dull cyson o reoli pob tomen nas defnyddir.

## Yr angen am y Bil

**18.** Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, gan dynnu sylw at yr angen i ddiwygio'r gyfundrefn ddiogelwch bresennol i amddiffyn yn well y cymunedau sy'n byw yng nghysgod tomenni nas defnyddir, yn enwedig tomenni glo.

**19.** Dywedodd Comisiwn y Gyfraith fod y Bil yn darparu ateb i'r problemau canolog y ceisiodd ei adroddiad yn 2022 fynd i'r afael â nhw.[2]

**20.** Wrth fynegi cefnogaeth i'r Bil, esboniodd y Cynghorydd Andrew Morgan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, oni bai bod risg ddiffiniedig neu uniongyrchol, ychydig o bwerau oedd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd.[3] Awgrymodd fod y mecanweithiau sydd ar gael i awdurdodau gynnal ymchwiliadau yn cymryd llawer o amser ac yn feichus.

---

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn y Gyfraith
[3] Cofnod y Trafodion, paragraff 295, 30 Ionawr 2025

**21.** Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio fod y Bil yn ymateb angenrheidiol i'r heriau sy'n gysylltiedig â thomenni mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir, gan ychwanegu:

> *"The unpredictable nature of spoil tip stability poses a tangible risk to communities living near these sites. By instituting comprehensive monitoring and maintenance frameworks, the Bill will significantly reduce the likelihood of accidents or disasters."*[4]

**22.** Dywedodd Cyfeillion y Ddaear fod angen y Bil ar frys, yn enwedig wrth i ddigwyddiadau tywydd eithafol sy'n cael eu hachosi gan y newid yn yr hinsawdd ddigwydd yn amlach a'u bod yn fwy eithafol, gan ansefydlogi tomenni i raddau digynsail.[5]

**23.** Fe wnaeth sawl cyfrannwr sylwadau ar bwysigrwydd y Bil o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol, gan dynnu sylw at y ffaith bod y mwyafrif o domenni glo nas defnyddir wedi eu lleoli yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

**24.** Nid oedd Cymdeithas Agregau Prydain na'r Gymdeithas Cynnyrch Mwynol yn cefnogi'r Bil, yn bennaf ar y sail ei fod yn berthnasol i domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo.

**25.** Ceisiodd cyfranwyr eglurhad ar (neu godi pryderon am) ddarpariaethau penodol o fewn y Bil. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at heriau gweithredu a chanlyniadau anfwriadol posibl. Mae'r materion hyn yn cael eu harchwilio drwy gydol yr adroddiad hwn.

## Cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo

**26.** Roedd y mwyafrif o gyfranwyr yn fodlon y bydd y drefn newydd yn berthnasol i domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, gan nodi y gallai pob tomen fod yn fygythiad i gymunedau, waeth beth fo'u tarddiad na'u cyfansoddiad.

**27.** Dywedodd Rick Brunt o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod alinio'r cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer tomenni nas defnyddir sy'n domenni glo ai peidio yn synhwyrol, gan ddweud:

---

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfeillion y Ddaear

> *"as a regulator, we would always look at things like what are the nature of the risks, what are the characteristics, and it doesn't actually matter whether that was a coal activity or non-coal activity. If the characteristics are the same and the risk exists, we would always seek to regulate in the same way."*[6]

**28.** Mynegodd Carl Banton o'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio farn debyg.

**29.** Awgrymodd cyfranwyr y byddai mynd i'r afael â'r prinder gwybodaeth am domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn dasg sylweddol, yn cymryd amser, ac yn gofyn am lawer o adnoddau. Gan hynny, roeddent o'r farn bod cynnig Llywodraeth Cymru i gyflwyno tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo dros amser yn synhwyrol ac yn bragmataidd.

**30.** Roedd Cymdeithas Agregau Prydain a'r Gymdeithas Cynnyrch Mwynol yn gwrthwynebu cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo. Dywedodd y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol:

> *"nowhere has the necessary research [on disused non-coal tips] been undertaken. This is stealth legislation without the supporting evidence base. We are now faced with ill-conceived proposals to regulate all disused tips."*[7]

**31.** Dywedodd Cymdeithas Agregau Prydain fod y drefn bresennol ar gyfer tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn gweithio'n dda. Dywedodd mai'r broblem yw materion etifeddiaeth mwyngloddio glo o domenni sbwriel yn cael eu rhoi ar dir uwchben ardaloedd â phoblogaeth a seilwaith nad ydynt wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd gan yr Awdurdod Glo na'r Awdurdod Lleol oni bai ei fod yn argyfwng.[8] Fel dewis arall i'r Bil, awgrymodd Cymdeithas Agregau Prydain ddiwygio Deddf 1969 i alluogi arolygu tomenni glo yn rhagweithiol.

**32.** Mynnodd y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol y dylai'r gyfundrefn newydd fod yn berthnasol i domenni glo nas defnyddir yn unig a chael ei goruchwylio gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio nes byddai asesiad/ymchwil lawn a

---

[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 30 Ionawr 2025
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Agregau Prydain

phriodol wedi ei gynnal i'r sector tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo.[9]

**33.** Dywedodd Cymdeithas Agregau Prydain fod ymestyn y gyfundrefn newydd i domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn arwain at y risg o ddargyfeirio cyllid oddi wrth ymdrin â'r materion mwyngloddio a etifeddwyd.[10]

## Bil sy'n canolbwyntio'n gul

### Maint y bygythiadau a'r risgiau

**34.** Mae'r gyfundrefn newydd y darperir ar ei chyfer yn y Bil yn canolbwyntio ar 'ansefydlogrwydd' tomenni nas defnyddir. Ni fydd ffactorau risg eraill, fel llygredd, hylosgi a llifogydd, yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu a chategoreiddio pan fyddant yn annibynnol ar 'ansefydlogrwydd'. Tynnodd Comisiwn y Gyfraith sylw at y gwyriad hwn o'i argymhelliad. Galwodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig a Chyfeillion y Ddaear am ystyried y ffactorau risg hyn, gan bwysleisio'r niwed y gallant ei achosi i'r amgylchedd.

**35.** Dywedodd Arolwg Daearegol Prydain y dylid ystyried yn benodol y risgiau o halogi amgylcheddol (pridd, dŵr wyneb a chyrff dŵr daear) o domen nas defnyddir os bydd cwymp neu newidiadau i amodau draenio, gan gynnwys tomenni 'sefydlog'.[11]

**36.** Galwodd sawl cyfrannwr, gan gynnwys Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig a chynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol, ar i'r drefn newydd fynd i'r afael â'r 'bygythiad o niwed amgylcheddol' o domenni nas defnyddir. Pwysleisiodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig:

> *"Importantly, threats to habitats, biodiversity, landscapes, watercourses etc. while exhibiting indirect effects on individuals and communities, may not be caught by the definition of 'threat to human welfare'…For this reason, the extent and scope of the threats arising from the disused tips should be wide and go beyond direct human threats."*[12]

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Agregau Prydain
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolwg Daearegol Prydain
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig

**37.** Dywedodd Dominic Driver (Cyfoeth Naturiol Cymru) y byddai ymestyn y drefn newydd i gwmpasu materion amgylcheddol wedi bod yn rhy gymhleth ac yn rhy dueddol o wyrdroi canlyniadau anfwriadol.[13]

**38.** Tynnodd y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol sylw at risg llygredd mewn tomenni nas defnyddir sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau metel, ac effaith hyn ar iechyd anifeiliaid. Awgrymodd y dylai'r drefn newydd geisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

### Delio â chanlyniadau methiant tomen

**39.** Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig ei bod yn syndod nad yw'r Bil yn cwmpasu camau i fynd i'r afael â chanlyniadau tomen yn methu.[14] Gofynnodd y Pwyllgor i'r Athro Lee (Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig) ymhelaethu ar y mater hwn. Dywedodd:

> *"It's a big thing, I think. The whole Law Commission paper was premised on the fact that we weren't just going to deal with something preventative in terms of instability for the future, but that, actually, we might do things that are remedial. In other words, if there is a coal tip failure—heaven forbid—why don't we charge the authority with the oversight of the remediation of everything that then needs doing?"*[15]

**40.** Ychwanegodd y byddai'n 'synhwyrol iawn' i'r Awdurdod Tipiau nas Defnyddir newydd i Gymru (gweler Pennod 3) gael rôl o ran goruchwylio gwaith adfer ehangach.[16]

## Diffyg manylder a'r defnydd o ganllawiau

**41.** Thema a oedd yn codi dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a ddaeth i law gan gyfranwyr oedd y diffyg manylion yn y Bil ar elfennau allweddol y drefn newydd, yn enwedig asesiadau, monitro ac arolygiadau. Mae hyn yn deillio, o leiaf yn rhannol, o benderfyniad Llywodraeth Cymru i adael llawer o'r manylion i ganllawiau.

[13] Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 30 Ionawr 2025
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[15] Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 5 Chwefror 2025
[16] Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 5 Chwefror 2025

**42.** Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig fod y Memorandwm Esboniadol yn gwneud addewidion helaeth am ganllawiau i lenwi manylion coll yn y Bil.[17] Honnodd fod rheol y gyfraith yn mynnu y dylai deddfwriaeth fod yn glir a chyflawn, heb adael bylchau i'w llenwi gan ganllawiau cyfraith feddal pan fo darpariaeth statudol cyfraith galed yn fwy priodol.[18] Wrth gydnabod bod canllawiau yn darparu hyblygrwydd, dywedodd yr Athro Lee (Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig):

> *"flexibility can work two ways, because flexibility can also mean quite significant shifts and changes by the mere issuance of guidance… it is a question, really, as to whether that balance between what's delegated by regulation and what is left to guidance is appropriately struck".*[19]

**43.** Ychwanegodd y canlynol:

> *"the question is: are there things that are so important that we wouldn't want them only to be in guidance, that we would want some degree of oversight by this body, by the Senedd?"*[20]

**44.** Er na wnaeth Comisiwn y Gyfraith sylwadau ar briodoldeb defnyddio canllawiau, esboniodd yr Athro Alison Young (yn rhinwedd ei swydd fel cyfreithiwr cyfansoddiadol) fel a ganlyn:

> *"… with statutory instruments, there'll be democratic scrutiny; with guidance, there would not. But guidance is much more flexible, and can be changed much more quickly in terms of technical need and to make sure that it's up to date, than statutory instruments."*[21]

**45.** Pwysleisiodd Daniel Therkelsen o'r Rhwydwaith Gweithredu Glo bwysigrwydd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwneud y Bil yn ddigon hyblyg i addasu i heriau'r dyfodol, ond hefyd sicrhau ei fod yn agored i graffu ac na ellir ei newid yn fympwyol o'r hyn y cred y Senedd mae'n ei basio. Ychwanegodd y canlynol:

---

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[19] Cofnod y Trafodion, paragraff 41, 5 Chwefror 2025
[20] Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 5 Chwefror 2025
[21] Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 30 Ionawr 2025

> *"I'm not sure that that balance is right... I'm also mindful of the election that is coming up in around a year's time and the potential to change quite substantively the work that the authority does [if the detail is left to guidance]".*[22]

**46.** Mynegodd Haf Elgar o Gyfeillion y Ddaear farn debyg. Awgrymodd y dylai'r Bil, ar y lleiaf, gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi arweiniad i'r Awdurdod, ac y dylai amserlenni gael eu cynnwys yn y Bil.

## Potensial ar gyfer "ail-gloddio"

**47.** Cododd y Rhwydwaith Gweithredu Glo, Cyfeillion y Ddaear a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryder y gallai'r Bil yn anfwriadol ysgogi "ail-gloddio" tomenni glo nas defnyddir.

**48.** Cyfeiriodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo at y cynigion gan ERI Ltd i adfer tomenni glo Bedwas heb unrhyw gost i'r perchennog (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn gyfnewid am werthu'r 'glo gwastraff' a echdynnir. Dywedodd y canlynol:

> *"We believe similar proposals would be an attractive prospect to other landowners facing open-ended coal tip liabilities under the lower thresholds introduced by the new Bill. This is particularly true for landowners who may struggle to sell on land containing higher risk coal tips."*[23]

**49.** Mynegodd Cyfeillion y Ddaear farn debyg, gan ddweud y gallai diwydiant glo newydd a pheryglus godi - fel y gwelwyd gyda gwaith glo brig.[24]

**50.** Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) wrth y Pwyllgor fod cwmnïau preifat yn cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn rheolaidd gyda chynigion i adfer tomenni nas defnyddir sy'n eiddo i'r cyngor. Ychwanegodd:

> *"There is the possibility that this will bring people forward, but, ultimately, if the public purse is paying for tips to be put right, or at least made safe, then it's down to public bodies to decide if that is an option they want to consider. The risk, I suppose, is*

[22] Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 5 Chwefror 2025
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Gweithredu Glo
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfeillion y Ddaear

> *potentially with private landowners. I know one in our area… was suggesting that he was going to deal with a tip by doing this… So, it is something to think about."*[25]

**51.** Honnodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo, os yw'r Bil hwn yn ysgogi'r arfer o 'ail-gloddio' tomenni glo ledled Cymru, y gallai hynny arwain at sgil effeithiau sylweddol i allyriadau newid hinsawdd Cymru.[26] Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gynnal Asesiad Effaith Carbon ac Asesiad Effaith Newid Hinsawdd llawn ar y Bil. Ategwyd hyn gan Gyfeillion y Ddaear.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Yr angen am y Bil

**52.** Wrth amlinellu'r angen am y Bil, esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Deddf 1969 wedi ei chyflwyno ar adeg pan oedd diwydiant mwyngloddio gweithredol yn bodoli. Dywedodd mai'r hyn rydym yn delio ag ef yn awr yw etifeddiaeth mwyngloddio, felly mae angen diweddaru'r ddeddfwriaeth.[27] Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ategu gan ganfyddiadau adolygiad Comisiwn y Gyfraith. Ychwanegodd y canlynol:

> *"[The Law Commission] found that the 1969 Act is no longer fit for purpose in the twenty-first century, so a very clear, very fundamental finding that they had. But in addition to that… what we've seen since then is instances such as the Tylorstown slip…That's what this Bill is fundamentally about: looking after the human welfare implications, making communities and individuals feel safe, and genuinely are safe."*[28]

**53.** Pan ofynnwyd iddo pa ystyriaeth roedd Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i gryfhau Deddf 1969, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y Llywodraeth wedi diystyru hynny am rai rhesymau arwyddocaol. Ailadroddodd bwysigrwydd cysondeb, dull rhagweithiol ac ataliol, ac un corff goruchwylio unedig, gyda'r gallu a'r arbenigedd ac yn canolbwyntio'n benodol ar y mater hwn.[29]

[25] Cofnod y Trafodion, paragraff 427, 30 Ionawr 2025
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Gweithredu Glo
[27] Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 12 Rhagfyr 2024
[28] Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 12 Rhagfyr 2024
[29] Cofnod y Trafodion, paragraff 5-6, 6 Mawrth 2025

## Cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo

**54.** Pan ofynnwyd iddo pam mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymestyn y Bil i gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, "Rwy'n poeni ein bod yn yr un sefyllfa mewn perthynas â thomenni glo nas defnyddir, ag yr oeddem mewn perthynas â thomenni glo yn dilyn y digwyddiadau yn Tylorstown yn 2020".[30] Ychwanegodd:

> *"Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod faint o domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo sydd, ym mha le mae tomenni o'r fath na faint o risg mae'r tomenni hyn yn ei pheri Nid oes gennym un corff sengl sy'n gyfrifol am reoli a lliniaru'r risgiau hynny. Er bod tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, ar y cyfan, yn peri llai o fygythiad na thomenni glo nas defnyddir, heb os bydd tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo lle byddai canlyniadau difrifol yn bosibl os nad yw tomenni o'r fath yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol."*[31]

**55.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog "ei bod yn synhwyrol ac yn gymesur inni fod yn rhagweithiol, fel y gallwn ganfod, gwerthuso, deall a monitro'r tomenni hyn ar yr adeg gywir a phan fydd adnoddau'n caniatáu". Ychwanegodd y canlynol:

> *"Rwy'n awyddus i sicrhau bod gennym gorff sy'n gyfrifol am ymdrin â'r holl domenni nas defnyddir yng Nghymru. Fel arall byddai diffyg goruchwyliaeth a rheoleiddio – a fyddai'n gallu arwain at ansicrwydd ac oedi pe bai argyfwng yn y dyfodol ar domen nas defnyddir nad yw'n domen glo."*[32]

**56.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog mai'r bwriad yw i'r Awdurdod flaenoriaethu tomenni glo nas defnyddir, gydag asesiadau ar domenni nad ydynt yn domenni glo yn dechrau tua 2033. Ychwanegodd y bydd gan yr Awdurdod yr hyblygrwydd i flaenoriaethu unrhyw domen nas defnyddir pe bai'n dod yn ymwybodol o risg sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd neu fygythiad i les dynol.

---

[30] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[31] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[32] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025

## Bil sy'n canolbwyntio'n gul

### Maint y bygythiadau a'r risgiau

**57.** Wrth sôn am ffocws cul y Bil, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"Gan gydnabod bod adnoddau'n gyfyngedig, a chan ein bod am sicrhau bod unrhyw drefn newydd yn gyraeddadwy ac yn llwyddiannus, roedd angen dylunio trefn fwy penodol – un sy'n canolbwyntio ar ansefydlogrwydd tomenni a allai beri bygythiad i les pobl".*[33]

**58.** Dywedodd hefyd:

> *"bydd y drefn newydd yn ystyried bygythiadau ehangach i sefydlogrwydd tomen fel y rhai a achosir gan lygredd, ymlosgiad a llifogydd. Mae'r rhain yn ffactorau a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosesau monitro a rheoli, pan fyddant yn berthnasol i ansefydlogrwydd."*[34]

**59.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y Bil wedi ei gynllunio "i weithio ochr yn ochr â deddfwriaeth a systemau amgylcheddol presennol sydd ar waith i ymdrin â bygythiadau amgylcheddol ehangach". Ychwanegodd y canlynol:

> *"What I would caution against is the idea of making this the one piece of legislation that solves all the problems, including environmental, pollution, et cetera, et cetera. There are other regimes in place already. This is a very, very, rightly laser-focused regime which is on human welfare and safety, and taking away the risks, or the potential risks, of the instability of those tips."*[35]

### Delio ag effeithiau tomenni'n methu

**60.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn bwriadu i'r Awdurdod fod yn ymatebwr Categori 2 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004. Dywedodd hefyd y bydd cynlluniau rheoli (gweler Pennod 4) yn nodi trefniadau wrth gefn pe bai digwyddiad yn ymwneud â thomen nas defnyddir. Byddai hyn yn cynnwys "sut y

[33] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[34] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[35] Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 6 Mawrth 2025

bydd yr asiantaethau partner priodol, gan gynnwys yr Awdurdod, yn ymateb i senarios penodol a allai godi mewn perthynas â thomen benodol, a'u rolau priodol wrth ddelio ag unrhyw ddigwyddiad".[36]

## Materion ehangach sy'n ymwneud ag etifeddiaeth mwyngloddio

**61.** Cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog "bod angen mynd i'r afael â rhai gwaddolion diwydiannol ehangach yn y tymor hwy".[37] Dywedodd:

> *"nid wyf yn credu mai'r Bil hwn, sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, yw'r ffordd gywir o fynd i'r afael â'r materion strategol hyn, ac rwy'n awyddus i ymdrin â'r materion hyn yn rhan o drafodaeth ehangach am ein Gwaddol diwydiannol gyda Llywodraeth y DU".*[38]

## Diffyg manylder a'r defnydd o ganllawiau

**62.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor fod cydbwysedd priodol rhwng y manylion yn y Bil a'r hyn a adawyd ar gyfer canllawiau. Honnodd fod canllawiau yn darparu hyblygrwydd ac y byddant yn helpu i ddiogelu'r gyfundrefn newydd yn y dyfodol, gan ychwanegu:

> *"the ability of guidance, actually—particularly when you're setting up a new authority that will develop its own expertise and capability, that will need to deal with advancements in knowledge as well—the ability to allow guidance to do this gives real flexibility…There are real advantages here to getting the balance right with guidance to allow that work on this; develop the expertise, refine the guidance, futureproof the guidance, change that dynamic approach, whilst being steered, I have to say, by the views of Welsh Government as well."*[39]

**63.** Nid yw'r Bil yn cynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau i'r Awdurdod. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn bwriadu rhoi canllawiau gan ddefnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pan

[36] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[37] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[38] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[39] Cofnod y Trafodion, paragraff 15-16, 6 Mawrth 2025

ofynnwyd iddo beth fyddai'n atal unrhyw lywodraeth newydd rhag mabwysiadu dull gwahanol tuag at ganllawiau i'r un a ragwelir gan Lywodraeth bresennol Cymru, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"I'd find it almost inconceivable based on the cross-party support for what we're trying to establish…that there would not be an impetus to actually bring forward the guidance in the way that I've described, in the way that we've set out in front of this committee, in the way that others that you've received evidence from have also said is going to be necessary. It seems difficult to conceive of a situation where any future Government, as this comes forward post 2026…would turn on its heels and say, 'We don't want guidance being brought forward."*[40]

**64.** Ar 6 Chwefror 2025, rhannodd y Dirprwy Brif Weinidog gyda'r Pwyllgor ganllawiau cryno ar fonitro; apeliadau yn erbyn galwadau am gostau; hawliadau iawndal; adennill costau; a chynlluniau rheoli.[41] Dilynwyd hyn gan ganllawiau cryno ar asesiadau ar 27 Chwefror 2025.[42]

## Potensial ar gyfer "ail-gloddio"

**65.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd yn cytuno â'r pryderon a godwyd gan gyfranwyr y gallai'r Bil ysgogi "ail-gloddio" yn anfwriadol, gan ddweud nad oedd o'r farn bod sail i'r pryderon hynny.[43] Dywedodd:

> *"this Bill is entirely focused on the stability, or the lack of stability, of disused tips and human welfare. It does not include any proposals that would allow for or enable generic remediation or the recovery of coal for commercial purposes."*

**66.** Cyfeiriodd at bolisi glo[44] Llywodraeth Cymru, a honnodd ei fod yn 'glir iawn, iawn'.[45]

---

[40] Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 6 Mawrth 2025
[41] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Chwefror 2025
[42] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Chwefror 2025
[43] Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 6 Mawrth 2025
[44] Datganiad Polisi ar Lo: Amcan polisi Llywodraeth Cymru i osgoi tynnu a defnyddio tanwydd ffosil parhaus (Mawrth 2021)
[45] Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 6 Mawrth 2025

## Ein barn ni

**Yr angen am y Bil**

Mae'r tirlithriad yn Tylorstown yn 2020 a'r tirlithriad mwy diweddar yng Nghwmytyleri yn atgof clir o'r risgiau sy'n gysylltiedig â threftadaeth mwyngloddio Cymru. Mae digwyddiadau fel y rhain yn amlygu'r angen dybryd i amddiffyn cymunedau'n well rhag y risgiau hynny. Mae hyn yn golygu cyfundrefn fwy cadarn ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir, sy'n blaenoriaethu diogelwch cymunedau.

Mae adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n llywodraethu diogelwch tomenni glo yn nodi achos cymhellol dros gyfundrefn ddeddfwriaethol newydd. Dyfynnwyd canfyddiadau'r adolygiad gan gyfranwyr wrth roi cefnogaeth i'r Bil. Dywedasant wrthym fod Deddf 1969 wedi dyddio ac yn annigonol i reoli'r risgiau a achosir gan domenni nas defnyddir, yn enwedig o ystyried effaith gynyddol newid yn yr hinsawdd.

O ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan gyfranwyr a phwysigrwydd sicrhau diogelwch cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i sicrhau bod y drefn newydd yn gadarn ac yn effeithiol. Er ein bod ni'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, credwn fod sawl mater y mae angen rhoi sylw iddynt os yw am lwyddo. Rydym yn archwilio'r materion hyn drwy gydol yr adroddiad ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau i'r Bil lle credwn fod eu hangen.

**Cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog ddadl argyhoeddiadol ar yr angen am ddarlun cynhwysfawr o domenni nas defnyddir Cymru nad ydynt yn domenni glo, ac am oruchwylio i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a lliniaru unrhyw risg bosibl y gallent eu hachosi. O ystyried hyn, a'r gefnogaeth mewn tystiolaeth gan y mwyafrif o gyfranwyr, rydym yn fodlon bod y Bil yn cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo.

Er gwaethaf yr uchod, rydym yn pryderu bod cynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn golygu y bydd adnoddau yn cael eu lledaenu'n fwy tenau nag y byddent fel arall. Rydym yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fydd y penderfyniad i gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn effeithio ar gyflawni'r drefn newydd yn effeithiol, nac yn arwain

at ddargyfeirio adnoddau i ffwrdd o sicrhau diogelwch tomenni glo nas defnyddir.

**Bil wedi ei lunio'n gul**

Mae'r Bil yn canolbwyntio'n gul ar atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Er ein bod ni'n cydnabod yr angen brys i ddeddfu ar hyn, byddai'n well gennym fod y Bil wedi cwmpasu materion eraill sy'n gysylltiedig ag etifeddiaeth mwyngloddio a chwareli Cymru. Mae hyn yn cynnwys adfer tir, a'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig ag adfer hen fwyngloddiau brig.

Rydym yn nodi honiad y Dirprwy Brif Weinidog bod deddfwriaeth a systemau amgylcheddol presennol ar waith i fynd i'r afael â niwed i'r amgylchedd o domenni nas defnyddir. Rydym yn disgwyl y bydd digon o gysylltiad rhwng y rhain a'r drefn ddiogelwch newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir, gyda chydlynu a chydweithredu rhwng rheoleiddwyr ac asiantaethau perthnasol eraill. O ystyried yr argyfwng natur cynyddol, credwn fod teilyngdod mewn adolygu deddfwriaeth a systemau presennol i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn ac effeithiol.

**Diffyg manylder a chanllawiau**

Rydym yn pryderu bod y Bil yn brin o fanylion mewn sawl maes allweddol. Dywedwyd wrthym y bydd manylion yn cael eu nodi mewn canllawiau, a roddir yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru. Rydym yn poeni am yr ymagwedd hon am nifer o resymau.

Yn gyntaf, mae'r diffyg manylion yn golygu nad yw bwriadau polisi Llywodraeth Cymru yn cael eu dangos yn glir yn narpariaethau'r Bil. Mae hyn wedi llesteirio gwaith craffu. Er ein bod ni'n ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am rannu canllawiau cryno gyda ni, fe'u cafwyd yn rhy hwyr yn y broses graffu i geisio barn rhanddeiliaid arnynt, ac i'r Pwyllgor eu hystyried yn fanwl.

Yn ail, ni fydd y drefn newydd yn berthnasol tan 1 Ebrill 2027. Gan hynny, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd penderfynu ar fanylion y polisi, ac a ddylid cyhoeddi canllawiau. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar unrhyw lywodraeth newydd i fodloni ymrwymiadau a wnaed gan y Llywodraeth hon mewn perthynas â rhoi canllawiau, na'r hyn fydd mewn canllawiau o'r fath.

Yn olaf, mae gadael manylion y polisi i ganllawiau yn golygu y gellir gwneud newidiadau sylweddol yn y dyfodol, a allai effeithio ar effeithiolrwydd y drefn newydd, heb ymgynghori na chraffu yn y Senedd.

Rydym yn cydnabod bod gan ganllawiau rôl i'w chwarae wrth sicrhau gweithrediad effeithiol y Bil. Serch hynny, ni ddylid eu defnyddio i lenwi manylion polisi pwysig y byddem yn disgwyl iddynt gael eu nodi fel arfer mewn deddfwriaeth, gan ddarparu goruchwyliaeth ddemocrataidd briodol. Mae hefyd yn hanfodol bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu darllen a deall y drefn newydd a sut bydd yn helpu i sicrhau eu diogelwch nhw a diogelwch eu cymunedau.

Fel mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud wrthym, mae cydbwysedd i'w daro rhwng 'hyblygrwydd' neu 'ddiogelu'r Bil ar gyfer y dyfodol', a darparu mwy o fanylion. Nid ydym yn argyhoeddedig y trawyd ar y cydbwysedd cywir yn y Bil hwn.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud argymhellion gyda'r nod o sicrhau bod cydbwysedd mwy priodol yn cael ei daro rhwng y manylion a gynhwysir mewn deddfwriaeth (naill ai yn y Bil neu reoliadau) a'r hyn sy'n cael ei adael i ganllawiau.

**Potensial ar gyfer "ail-gloddio"**

Rydym yn nodi barn y Dirprwy Brif Weinidog nad oes sail i'r pryderon a godwyd mewn tystiolaeth y gallai'r Bil ysgogi "ail-gloddio". I fod yn glir, rydym yn cydnabod nad yw'r Bil yn hwyluso adfer tomenni glo nas defnyddir yn ehangach drwy echdynnu glo. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gyda ni am y risg o ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o'r Bil. Yn benodol, y gall awydd i osgoi goblygiadau ariannol cyfundrefn reoli fwy rhagweithiol ysgogi perchnogion i chwilio am ddewisiadau amgen, gan gynnwys gweithgarwch adfer sy'n cynnwys echdynnu glo.

Nodwn y bydd cynigion adfer o'r fath yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth gynllunio bresennol, polisi glo Llywodraeth Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru. Er bod polisi glo Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir mai ei nod yw atal echdynnu a defnyddio glo, mae'n gadael y drws yn agored ar gyfer echdynnu glo mewn 'amgylchiadau hollol eithriadol'. Rydym eisoes wedi nodi ein barn yn glir ar y mater hwn yn ein hadroddiad, Adfer safleoedd glo brig (Awst 2024).

Rydym yn ceisio sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru bod deddfwriaeth a pholisïau cynllunio presennol yn ddigon cadarn i sicrhau na fyddai cynigion i adfer tomen nas defnyddir sy'n ymwneud ag echdynnu glo yn cael eu caniatáu

oni bai eu bod at ddibenion sicrhau diogelwch y cyhoedd. Ymhellach, rydym yn ceisio sicrwydd na fydd unrhyw lo a echdynnir yn ystod gwaith adfer yn cael ei werthu at ddibenion llosgi.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd na fydd y penderfyniad i gynnwys tomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo yn effeithio ar gyflawni'r drefn newydd yn effeithiol, nac yn arwain at ddargyfeirio adnoddau i ffwrdd o sicrhau diogelwch tomenni glo nas defnyddir.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad manwl o'r ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol a'r systemau sydd ar waith i fynd i'r afael â niwed amgylcheddol a achosir gan domenni nas defnyddir, ac ymrwymo i adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn ac effeithiol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o sicrwydd:

- bod y ddeddfwriaeth gynllunio bresennol, polisi glo Llywodraeth Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru yn ddigon cadarn i sicrhau na fydd cynigion i adfer tomen nas defnyddir sy'n cynnwys echdynnu glo yn cael eu caniatáu oni bai eu bod at ddibenion sicrhau diogelwch y cyhoedd, a

- bydd polisi glo Llywodraeth Cymru yn atal unrhyw lo a echdynnir yn ystod gwaith adfer rhag cael ei werthu at ddibenion llosgi.

# 3. Rhan 1 – Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru

Mae Rhan 1 yn sefydlu Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) ac yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaethau pellach ar gyfer yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn cael ei sefydlu ar 1 Ebrill 2027 (yn unol â'r darpariaethau dod i rym a nodir yn adran 87).

Mae Rhan 1 hefyd yn amlinellu prif amcan yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bil. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth am swyddogaethau cyffredinol ac ategol yr Awdurdod.

## Sefydlu Awdurdod newydd

**67.** Roedd cefnogaeth eang i sefydlu'r Awdurdod. Tynnodd yr Athro Young sylw at y ffaith mai un o argymhellion allweddol Comisiwn y Gyfraith oedd creu un awdurdod canolog â chyfrifoldeb am ddiogelwch tomenni nas defnyddir, y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer.

**68.** Roedd nifer o gyfranwyr o'r farn y byddai'r Awdurdod yn galluogi dull cyson a chydlynol o sicrhau diogelwch tomenni nas defnyddir, yr awgrymwyd nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Dywedodd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio:

> *"The beauty of having one body that oversees it all is that you do get that consistency and you do get that single level of categorisation and that single level of understanding of risk."*[46]

**69.** Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio fod gan yr Awdurdod y potensial i ddarparu'r oruchwyliaeth a'r atebolrwydd penodol sydd eu hangen i reoli cymhlethdod tomenni nas defnyddir.[47]

**70.** Dywedodd Kevin Kingsley o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wrth y Pwyllgor y bydd sefydlu'r Awdurdod yn 'tynnu llawer o bwysau oddi ar awdurdodau lleol', sydd ar hyn o bryd yn goruchwylio diogelwch tomenni nas defnyddir.[48] Cododd Daniel Therkelsen (y Rhwydwaith Gweithredu Glo) bwynt

[46] Cofnod y Trafodion, paragraff 186, 30 Ionawr 2025
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[48] Cofnod y Trafodion, paragraff 336, 30 Ionawr 2025

tebyg, gan bwysleisio'r angen i osgoi gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau 'sydd eisoes wedi eu gor-ymestyn'.[49]

**71.** Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r farn ei bod yn bwysig i Gymru gael ei chorff ei hun, sy'n atebol i Lywodraeth Cymru.

**72.** Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig y bydd corff statudol newydd yn darparu 'rhywfaint o barhauster a sicrwydd'.[50] Mynegodd Cyfeillion y Ddaear farn debyg.

**73.** Cwestiynodd un unigolyn a Chyngor Sir Caerfyrddin yr angen am gorff statudol newydd, yn enwedig o ystyried y gost sydd ymhlyg. Awgrymodd Cyngor Sir Gâr y byddai buddsoddi mewn datblygu cangen benodol o'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn benodol i domenni Cymru yn fwy cost-effeithiol na sefydlu corff newydd.[51]

**74.** Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio y dylid ystyried y rhyngweithio rhwng yr Awdurdod a'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, gan gyfeirio at y potensial am orgyffwrdd deddfwriaethol. Awgrymodd y dylid ystyried a ffurfioli natur y berthynas rhwng yr Awdurdod a chyrff ategol.[52]

**75.** Holodd y Sefydliad Siartredig Adeiladu a ellid sefydlu'r Awdurdod yn gynt nag 1 Ebrill 2027, gan nodi y byddai'r amserlen bresennol yn golygu dwy flynedd a hanner arall o risg ac ansicrwydd i brosiectau adeiladu mae'r safleoedd nas defnyddir hyn yn effeithio arnynt ledled Cymru.[53]

**76.** Thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a gafwyd oedd yr angen i'r Awdurdod gael ei gyllido'n ddigonol a chael digon o adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae goblygiadau ariannol y Bil, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, wedi cael eu hystyried gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

## Prif amcan yr Awdurdod

**77.** Yn Adran 2 nodir mai prif amcan yr Awdurdod yw "atal tomenni segur (glo a di-lo) rhag bygwth lles dynol oherwydd ansefydlogrwydd". Wrth ddilyn ei brif

[49] Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 5 Chwefror 2025
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Caerfyrddin
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Tai Siartredig Cymru

amcan, rhaid i'r Awdurdod "hyrwyddo safonau uchel mewn perthynas â rheoli tomenni nas defnyddir a bygythiadau i'w sefydlogrwydd".

**78.** Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, galwodd sawl cyfrannwr am i'r gyfundrefn newydd fynd i'r afael â'r bygythiad o niwed amgylcheddol a risgiau ar wahân i 'ansefydlogrwydd', a berir gan domenni nas defnyddir. Galwodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig am ddiwygio prif amcan yr Awdurdod i adlewyrchu hyn.

**79.** Galwodd Cyfoeth Naturiol Cymru am i'r hyrwyddo safonau uchel yn adran 2(2) gael ei ddehongli i gynnwys safonau ar draws yr holl elfennau perthnasol o warchod yr amgylchedd, yn debyg i bwrpas craidd y corff hwnnw o fynd ati i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.[54]

**80.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fod y term "safonau uchel" yn 'oddrychol'. Galwodd am fwy o eglurder a thryloywder ynglŷn â'r hyn y bydd "safonau uchel" yn ei olygu yn ymarferol.[55]

## Effaith y Bil ar natur a bioamrywiaeth

**81.** Tynnodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig, Cyfeillion y Ddaear a Buglife sylw at arwyddocâd ecolegol tomenni glo nas defnyddir, gan esbonio y gallai gweithrediadau i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd drawsnewid cymeriad safleoedd, gan effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth. Cafwyd galwad ganddynt am i effaith gweithrediadau ar natur gael ei hystyried o'r cychwyn cyntaf, a'i lleihau.

**82.** Dywedodd Cyfeilion y Ddaear:

> *"Welsh coal tips often support habitats and wildlife of considerable local, regional, and national importance. Across Wales, colliery spoil sites provide a refuge for diverse communities of birds, mammals, amphibians, reptiles, plants, fungi, lichens, and invertebrates.*
>
> *There are currently 99 coal tips in Wales that are within designated Sites of Special Scientific Interest (SSSI), and a further 32 that are Special Areas of Conservation (SAC)."*[56]

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru
[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfeillion y Ddaear

**83.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan Buglife. Pwysleisiodd yr angen i'r Awdurdod gael cyngor priodol ar gynlluniau rheoli a chynnal a chadw priodol a fydd yn gwarchod bioamrywiaeth pob safle.[57] Ymhellach, tynnodd sylw at bwysigrwydd ymgynghori a rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod a rhanddeiliaid perthnasol sy'n ymwneud â chadwraeth natur ar domenni nas cynhelir.[58]

**84.** Pwysleisiodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig yr angen i'r Awdurdod gydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wrth arfer ei bwerau, gan nodi:

> *"Proactive action to curb threats to human welfare ought not to override considerations of environmental sustainability which are poorly iterated in the Bill as it stands."*[59]

**85.** Galwodd Cyfeillion y Ddaear am gynnwys cyfeiriad at ddeddfwriaeth amgylcheddol yn y Bil.

## Staffio a sgiliau

**86.** Pwysleisiodd nifer o gyfranwyr, er mwyn i'r Awdurdod allu cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, y byddai angen staff â chymwysterau addas ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau. Roeddent yn awgrymu y gallai recriwtio staff fod yn her allweddol i'r Awdurdod, gan dynnu sylw at ddiffyg sgiliau ac arbenigedd yn y gweithlu presennol.

**87.** Adroddodd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, cynrychiolwyr llywodraeth leol a'r sector mwyngloddio a chwarela yr heriau recriwtio presennol, gan gyfeirio at brinder arbenigwyr technegol yng Nghymru a thu hwnt. Cododd y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol bryder y byddai sefydlu'r Awdurdod yn gwaethygu'r heriau hyn. Dywedodd Nick Horsley (y Gymdeithas Cynnyrch Mwynol):

> *"To have a separate authority, in my view, creates a bigger challenge to the skills challenge that the sector already faces…As well as the competition that you get between industry and local authority, you'll get competition from one authority to another."*[60]

[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, Buglife
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, Buglife
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[60] Cofnod y Trafodion, paragraff 318, 5 Chwefror 2025

**88.** Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryder y gallai awdurdodau lleol golli staff profiadol i'r Awdurdod, yn enwedig pe bai'n cynnig cyflogau uwch. Esboniodd y gallai hyn greu heriau i awdurdodau o ran cyflawni eu dyletswyddau fel perchnogion tomenni nas defnyddir. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru):

> *"Across Wales, there isn't an abundance of engineers, so there is a concern that the new body doesn't just suck all of that knowledge and expertise out of local authorities…Because otherwise, you could have a well-resourced body that tells local authorities they should be doing x, y, and z, but we don't have the engineers to do it, because they've all left local authorities maybe to go to work for the new body that may be paying more."*[61]

**89.** Cafwyd galwadau ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i ddeall anghenion sgiliau yn y dyfodol a nodi ffyrdd o fynd i'r afael â nhw.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Sefydlu Awdurdod newydd

**90.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod creu corff statudol newydd yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith. Dywedodd:

> *"If we'd spread [out responsibility] amongst the existing [bodies], it could be fragmented, but, more importantly, we get one identifiable body that carries accountability and carries the expertise, and drives forward this agenda. So, we did think about alternative ways, but they were discounted as not workable, not practical, and they wouldn't deliver the outcomes we're trying to do."*[62]

**91.** Cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog arbenigedd sylweddol yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn y maes hwn. Fodd bynnag, eglurodd fod yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio hefyd yn berchen ar hen domenni, a allai greu gwrthdaro buddiannau. Dywedodd nad yw'r Awdurdod Adfer Safleoedd

[61] Cofnod y Trafodion, paragraff 339, 30 Ionawr 2025
[62] Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 12 Rhagfyr 2024

Mwyngloddio yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu bod y llinell uniongyrchol honno o atebolrwydd yn hanfodol.[63]

**92.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod yr amserlen ar gyfer sefydlu'r Awdurdod newydd yn heriol ac yn uchelgeisiol, ond yn gyraeddadwy.[64] Amlinellodd ddull tri cham: gweithredu, sefydlu a phontio.

**93.** Pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd y rhaglen waith bresennol ar domeni glo nas defnyddir, dan arweiniad yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, yn parhau nes bydd yr Awdurdod newydd yn weithredol. Eglurodd y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio i sicrhau pontio llyfn gyda'r bwriad o osgoi unrhyw broblem sy'n gorgyffwrdd.

## Prif amcan yr Awdurdod

**94.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog mai pwrpas adran 2 (prif amcan yr Awdurdod) "yw nodi'n glir, ar wyneb y Bil, at ba ddiben mae'r Awdurdod yn cael ei sefydlu yn bennaf".[65] Ychwanegodd y canlynol:

> *"Bydd y prif amcan, ar lefel gyffredinol, yn gweithredu i ddylanwadu ar ddyfarniadau a wneir gan yr Awdurdod ynghylch sut y dylid cyflawni'r pwerau a'r dyletswyddau eraill a roddir iddo.*
>
> *Yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill, bydd ganddo amcanion cyffredinol yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau a fydd yn cael eu gosod yn y llythyr cylch gwaith ar gyfer yr Awdurdod."*[66]

**95.** Pan ofynnwyd iddo esbonio ystyr "safonau uchel" yn adran 2(2), dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog "bod gan yr ymadrodd ei ystyr gyffredin, a bydd yr hyn a ystyrir yn "safon uchel" yn ddibynnol ar gyd-destun".[67] Wrth fynd ati i hyrwyddo safonau uchel, dywedodd y bydd disgwyl i'r Awdurdod ddilyn arfer gorau a chanllawiau perthnasol; cadw'n gyfredol a gweithredu ar ddatblygiadau mewn

[63] Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 6 Mawrth 2025
[64] Cofnod y Trafodion, paragraff 66, 12 Rhagfyr 2024
[65] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025
[66] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025
[67] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025

technoleg berthnasol neu ddatblygiadau mewn gwybodaeth berthnasol; rheoli tomenni nas defnyddir mewn ffordd dryloyw sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd; a chyflogi unigolion â chymwysterau priodol, ymhlith pethau eraill.

### Effaith y Bil ar natur a bioamrywiaeth

**96.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y Bil wedi ei ategu gan ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol. Eglurodd y bydd angen i'r Awdurdod a pherchnogion tir sicrhau bod cynlluniau cynnal a chadw neu adfer yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddiogelu'r amgylchedd.

**97.** Yn ôl y Dirprwy Brif Weinidog, mae cyfeirio at ddeddfwriaeth amgylcheddol yn y Bil o bosibl yn ddianghenraid ac yn anghymesur, ac fe allai fod yn rhwystr yn y dyfodol, oherwydd byddai'n rhaid dod yn ôl at hyn a'i addasu pe bai'r ddeddfwriaeth honno'n cael ei haddasu.[68]

### Staffio a sgiliau

**98.** Wrth sôn am yr angen i sicrhau bod gan yr Awdurdod newydd ddigon o allu a chapasiti i gyflawni ei swyddogaethau, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"we need to start building those pipelines very cogently, and there are ways we can do that. I think that does mean working with those bodies out there, but also with the further education and higher education sectors".*[69]

**99.** Cyfeiriodd at Ysgol Peirianneg Mwyngloddiau Cambourne yn ne-orllewin Lloegr, gan ddweud:

> *"what we need to be doing is building that pool here in Wales as well, developing that thing that will lift all boats, so local authorities, NRW and the new authority as well, because we need more people with more skills and newer skills and developing skills within it, so that we have those good salaries right across the piece and we also have good expertise. Local authorities are going to be key to this. And I see it working in concert, in collaboration with the new authority."*[70]

[68] Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 12 Rhagfyr 2024
[69] Cofnod y Trafodion, paragraff 96, 6 Mawrth 2025
[70] Cofnod y Trafodion, paragraff 96, 6 Mawrth 2025

**100.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai datblygu'r gweithlu yn y maes hwn yn cymryd amser. Pwysleisiodd yr angen i gefnogi sgiliau lleol a thwf swyddi, gan gynnwys mewn cymunedau yr effeithir arnynt gan domenni nas defnyddir, yn ogystal ag edrych y tu hwnt i Gymru i ddenu arbenigedd. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio gyda Talent Beyond Boundaries, sy'n cysylltu cyflogwyr â ffoaduriaid medrus ac yn agor llwybrau mudo iddynt.

**101.** Roedd yn cydnabod pwysigrwydd datblygu llwybrau gyrfa ac arallgyfeirio'r gweithlu, gan ychwanegu y byddai'n disgwyl i'r awdurdod, a phartneriaid eraill, fel awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn gweithio i wneud hyn, gyda chymorth cydweithwyr mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach.[71]

## Ein barn ni

**Awdurdod Tomenni nas Defnyddir newydd i Gymru**

Ar y cyfan, cyflwynodd cyfranwyr a'r Dirprwy Brif Weinidog ddadleuon cryf dros sefydlu Awdurdod newydd, sy'n ymroddedig i oruchwylio'r gwaith o reoli tomenni nas defnyddir i sicrhau eu diogelwch. Rydym yn fodlon, felly, ag adran 1 o'r Bil.

Er ein bod ni'n cydnabod bod sefydlu unrhyw gorff statudol newydd yn golygu cryn waith ac yn cymryd amser, byddai'n well gennym i'r Awdurdod fod wedi cael ei sefydlu'n gynt. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr Awdurdod yn gwbl weithredol o'r diwrnod cyntaf. Mae hyn yn golygu y dylai'r holl ganllawiau fod yn barod, a dylai'r holl reoliadau perthnasol fod mewn grym erbyn 1 Ebrill 2027.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad gan y Dirprwy Brif Weinidog y bydd y rhaglen waith bresennol, dan arweiniad yr Awdurdod Adfer Mwyngloddio, yn parhau nes bod yr Awdurdod newydd yn weithredol. Mae angen i'r Senedd a'r cyhoedd, ac yn enwedig cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni glo nas defnyddir, fod yn hyderus bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni tra bod yr Awdurdod yn cael ei sefydlu. Er mwyn sicrhau tryloywder a chynorthwyo gwaith craffu, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ei rhaglen waith.

Rydym yn fodlon ar y cyfan â phrif amcan yr Awdurdod, sy'n adlewyrchu pwrpas craidd y Bil. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, byddai'n well gennym pe bai'r Bil

[71] Cofnod y Trafodion, paragraff 260, 6 Mawrth 2025

wedi cwmpasu materion ehangach sy'n gysylltiedig ag etifeddiaeth mwyngloddio a chwareli Cymru, ac i'r Awdurdod fod wedi cael goruchwyliaeth dros y rhain.

**Effaith y Bil ar natur a bioamrywiaeth**

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn pwysleisio arwyddocâd bioamrywiaeth uchel tomenni nas defnyddir. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y tomenni hyn yn cael eu rheoli a'u cynnal mewn ffordd sy'n diogelu ac yn gwella eu gwerth bioamrywiaeth, yn enwedig o ystyried ymrwymiadau bioamrywiaeth Cymru. Mae gan y sector amgylcheddol a grwpiau cadwraeth natur lleol gyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd y gellir eu defnyddio i gyflawni hyn.

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad, rydym yn archwilio mater cynlluniau rheoli. Rydym yn awyddus i'r Awdurdod ymgysylltu â'r sector amgylcheddol a grwpiau cadwraeth lleol i ddatblygu cynlluniau rheoli, gyda'r bwriad o sicrhau bod y drefn newydd yn ategu'r gwaith o gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth cadarnhaol.

Fel corff cyhoeddus sydd newydd ei sefydlu, a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth adran 6, mae gan yr Awdurdod gyfle i ymgorffori bioamrywiaeth yn ei feddylfryd a'i waith cynllunio busnes o'r diwrnod cyntaf. Rydym yn disgwyl i gynllun corfforaethol yr Awdurdod adlewyrchu hyn.

**Staffio a sgiliau**

Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan gyfranwyr y gallai'r Awdurdod wynebu heriau recriwtio oherwydd cronfa dalent fach yn y maes gwaith hwn. Y gobaith yw y bydd sefydlu'r Awdurdod yn darparu cyfleoedd i feithrin datblygiad arbenigedd technegol a sgiliau arbenigol yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Fodd bynnag, rhaid iddo fod â phersonél cymwys a phrofiadol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf.

Rydym yn nodi tystiolaeth y Dirprwy Brif Weinidog ar y mater hwn. Fodd bynnag, byddem yn croesawu esboniad manylach o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i sicrhau bod y galw am sgiliau presennol ac yn y dyfodol yn cael ei ddiwallu.

Yn olaf, rydym hefyd yn cydnabod bod menywod a chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli o fewn y sector. Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llwybrau gyrfa yn y maes hwn yn

agored i bawb, a byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch sut bydd hyn yn cael ei sicrhau.

## Argymhellion

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Awdurdod yn gwbl weithredol o 1 Ebrill 2027, gyda'r holl ganllawiau ar waith a'r holl reoliadau angenrheidiol mewn grym erbyn y dyddiad hwnnw.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ddwywaith y flwyddyn i'r Senedd ar gynnydd tuag at gyflawni ei rhaglen waith bresennol i archwilio a chynnal tomenni glo nas defnyddir, sy'n cael ei harwain gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliad i'r Awdurdod ymgysylltu â'r sector amgylcheddol a grwpiau cadwraeth natur lleol wrth ddatblygu cynlluniau rheoli.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod cynllun corfforaethol yr Awdurdod yn nodi'n glir sut bydd yn ymgorffori ystyried bioamrywiaeth yn ei feddylfryd a'i waith cynllunio busnes.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y camau mae'n eu cymryd, drwy weithio gyda'i phartneriaid, gan gynnwys darparwyr addysg a sgiliau, i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a chynrychiolaeth yn y gweithlu a datblygu llwybrau gyrfa addas, i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Bil yn effeithiol.

# 4. Rhan 2 – Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir

## Pennod 1 – Cofrestr o domenni nas defnyddir

Mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio a chynnal cofrestr o domenni nas defnyddir. Mae'n nodi'r meini prawf ar gyfer cofrestru a chynnwys y gofrestr. Mae'n darparu hawl i fynediad cyhoeddus at y gofrestr.

Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i fonitro tomenni nas defnyddir sydd ar y gofrestr.

## Cofrestr tomenni nas defnyddir

**102.** Bu cyfranwyr yn ystyried cofrestr hygyrch i'r cyhoedd fel modd o wella tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â thomenni nas defnyddir a'u rheolaeth. Rhybuddiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai'r gofrestr niweidio iechyd yn anfwriadol drwy wneud pobl yn ymwybodol o domen yn eu hardal nad oeddent yn gwybod amdani.[72]

**103.** Nododd Comisiwn y Gyfraith nad yw'r Bil yn rhoi effaith lawn i'r argymhelliad yn ei adroddiad ar gyfer cofrestr asedau genedlaethol o'r holl domenni glo nas defnyddir. Eglurodd na fydd y gofrestr o domenni yn rhestr gynhwysfawr o'r holl domenni nas defnyddir, ond yn hytrach yn rhestr o'r rhai sydd, ym marn yr Awdurdod, yn fygythiad neu'n fygythiad posibl i les pobl oherwydd ansefydlogrwydd. O gofio am o ehangu cwmpas cymhwysiad y Bil i bob tomen nas defnyddir, ychwanegodd y gallai hyn fod yn ddewis polisi angenrheidiol i sicrhau bod defnyddio'r gofrestr yn cael ei gydbwyso â chost creu a chynnal y gofrestr.[73]

**104.** Mynegodd sawl cyfrannwr eu bod yn ffafrio cofrestr gynhwysfawr o'r holl domenni nas defnyddir. Dywedodd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio y dylid cael un gofrestr a ddylai gwmpasu pob tomen, ac fel hynny byddai'r holl wybodaeth ar gael mewn un lle, o leiaf.[74] Ystyriodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y byddai cofrestr gynhwysfawr yn darparu mwy o eglurder ac

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn y Gyfraith
[74] Cofnod y Trafodion, paragraff 199, 30 Ionawr 2025

yn helpu i hyrwyddo hyder y cyhoedd. Mynegodd Haf Elgar (Cyfeillion y Ddaear) farn debyg, gan ddweud ei bod yn well i'r cyhoedd a chymunedau cyfagos wybod bod eu tomen wedi cael ei chydnabod. 'Nid yw mewn perygl, ond mae ar y rhestr', meddai.[75]

**105.** Awgrymodd Comisiwn y Gyfraith a Chyfeillion y Ddaear y byddai cofrestr gynhwysfawr yn offeryn defnyddiol i helpu i lywio'r broses datblygu cynllunio. Esboniodd Haf Elgar (Cyfeillion y Ddaear):

> *"if we don't have a comprehensive register, we don't know they're there, or local authorities looking at a planning application won't necessarily know to take that into account and to consider that impact on tips, even if they're not currently identified as 'at risk', whether they could be made 'at risk'."*[76]

## Dyletswydd i fonitro

**106.** Mae'r dystiolaeth gan gyfranwyr yn tynnu sylw at ddiffyg eglurder ynglŷn â'r gofynion monitro ac arolygu parhaus ar gyfer tomenni nas defnyddir. Galwodd sawl cyfrannwr am gynnwys rhagor o fanylion naill ai yn y Bil, mewn is-ddeddfwriaeth, neu mewn canllawiau.

**107.** Dywedodd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio y byddai'n gliriach pe bai dull a mynychder archwiliadau'n cael eu nodi. Ychwanegodd Carl Banton (yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio):

> *"it's just ensuring that we've got the minimum level specified, that there's sufficient, I suppose, within the legislation to ensure that that has actually happened, and, if not, then why not."*[77]

**108.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf nad yw'r arolygiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn digwydd yn ddigon aml, yn enwedig ar gyfer tomenni risg uchel. Ychwanegodd eu bod yn ôl eu diffiniad yn peri mwy o risg ac y gallant fod yn dueddol o weld newidiadau cyflym, a dyna pam y byddai isafswm amlder arolygu uwch yn ddoeth.[78] Esboniodd:

[75] Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 5 Chwefror 2025
[76] Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 5 Chwefror 2025
[77] Cofnod y Trafodion, paragraff 219, 30 Ionawr 2025
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

> *"[We] currently inspect Cat D tips (D1, D3) on a monthly or 3 monthly cycle. Cat C tips on a 6 month cycle, Cat B annually, and Cat A's on 2 or 4 year cycles. This not only provides a robust inspection and monitoring regime it provides public confidence that these assets are being managed effectively."*[79]

**109.** Pwysleisiodd Dominic Driver (Cyfoeth Naturiol Cymru) yr angen i barhau i fod yn agored i ddatblygiadau technolegol i fonitro ansefydlogrwydd, gan ychwanegu bod yn rhaid i'r canllawiau gwmpasu hynny, yn hytrach na dod yn gyfyngiad ar gyflwyno hynny.[80]

**110.** Nododd cynrychiolwyr llywodraeth leol, er y bydd yr Awdurdod newydd yn gyfrifol am fonitro ac arolygiadau, mae awdurdodau lleol hefyd yn debygol o barhau i fonitro tomenni nas defnyddir maent yn berchen arnynt.

## Cynlluniau rheoli

**111.** Argymhellwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith y dylai'r drefn newydd gynnwys cynlluniau rheoli statudol. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd Comisiwn y Gyfraith nad yw'r Bil yn gwneud cynlluniau rheoli yn ofynnol, ac nad ydynt yn ymddangos yn unrhyw le yn y Bil.[81] Esboniodd:

> *"Additionally, there is no provision in the Bill for the Welsh Ministers to prescribe by statutory instrument the matters to be included in an assessment or tip management plan, as envisaged by our 2022 report. Nor is there a provision in the Bill requiring Welsh Ministers to produce guidance relating to the content of management plans. [Section] 69 of the Bill, rather requires the Authority to take any guidance relating to management plans into account when exercising its functions."*[82]

**112.** Galwodd Arolwg Daearegol Prydain am gyflwyno cynlluniau rheoli statudol. Dywedodd:

> *"We recommend that the criteria for establishing a management plan (i.e. for what category and whether these*

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
[80] Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 30 Ionawr 2025
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn y Gyfraith
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn y Gyfraith

> *should be tip specific, or more general), who is responsible for initiating and reviewing them, and the time frames involved, should be stated clearly within the Bill."*[83]

**113.** Tynnodd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr llywodraeth leol sylw at bwysigrwydd cynlluniau rheoli. Dywedodd Carl Banton (Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio) bod cynllun rheoli yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol at ei gilydd i wneud yn siŵr bod y domen honno'n cael ei chadw'n ddiogel.[84] Cyfeiriodd Dominic Driver (Cyfoeth Naturiol Cymru) at gynlluniau rheoli fel rhywbeth 'hanfodol', tra bod Kevin Kinsey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent) yn dweud eu bod yn 'elfen allweddol' o'r ddeddfwriaeth.[85]

**114.** Pwysleisiodd Carl Banton (yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio) y byddai canllawiau yn 'hollbwysig' i sicrhau dull cyson o ddatblygu cynlluniau rheoli.[86]

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Cofrestr tomenni nas defnyddir

**115.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod rhestr gynhwysfawr o domenni glo nas defnyddir eisoes ar gael, yn dilyn gwaith y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo i'w lleoli a'u nodi. Dywedodd:

> *"The register rightly focuses on those tips where it is deemed that there is either a threat of instability that would jeopardise the human welfare and safety of communities, or where there is a risk of instability developing. Now, that's the register, and it's right that that is the register, because those are the ones that we need to prioritise the work on. But there is a list as well, which is more comprehensive, of all of the disused tips."*[87]

**116.** Ychwanegodd:

> *"we're not starting from a blank sheet of paper on this. So, as I've stated, it's expected the authority will work to compile a*

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolwg Daearegol Prydain
[84] Cofnod y Trafodion, paragraff 237, 30 Ionawr 2025
[85] Cofnod y Trafodion, paragraff 328, 30 Ionawr 2025
[86] Cofnod y Trafodion, paragraff 237, 30 Ionawr 2025
[87] Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 6 Mawrth 2025

> *comprehensive list of all disused tips in Wales—both coal and non-coal. But it's the difference between what's on that and what's the register."*[88]

## Y dull arfaethedig o fonitro ac arolygu

**117.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn anelu at adlewyrchu'r trefniadau monitro ac arolygu sydd ar waith gyda'r Awdurdod Adfer Mwyngloddio ar hyn o bryd.[89] Dywedodd y bydd y gofynion monitro lleiafswm a argymhellir, gan gynnwys amlder arolygiadau, yn cael eu nodi mewn canllawiau statudol.

**118.** Holodd y Pwyllgor y Dirprwy Brif Weinidog pam ei fod wedi dewis peidio â chynnwys rhagor o fanylion ar fonitro ac arolygiadau yn y Bil. Dywedodd:

> *"If we had to return to the Bill…to adjust the monitoring frequency, or whatever, that would be a real impairment for that new authority. But secondly, the big, obvious one is the advances in technology…in another three or four years…technology will have moved on again…So, rather than coming back to the front page of a piece of law, putting it in statutory guidance, I think, gives that flexibility to the authority."*[90]

**119.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog, er bod ystyriaeth wedi ei rhoi i gynnwys pwerau gwneud rheoliadau ar fonitro ac arolygu, bod y Llywodraeth wedi asesu bod canllawiau yn rhoi'r cadernid sydd ei angen, ond ei fod hefyd yn diogelu'r dull yn y dyfodol hefyd.[91]

**120.** Pan ofynnwyd iddo pam nad yw'r Bil yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau ar fonitro ac arolygiadau, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"we intend to use the powers that we've already got in the Government of Wales Act 2006 to make the guidance…there's no reason why this guidance won't be published. There's an expectation that it will be published. I think everybody would be*

[88] Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 6 Mawrth 2025
[89] Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 12 Rhagfyr 2024
[90] Cofnod y Trafodion, paragraff 104, 12 Rhagfyr 2024
[91] Cofnod y Trafodion, paragraff 106, 12 Rhagfyr 2024

*surprised if there wasn't guidance. So, there isn't a need to repeat that within this Bill; the power is already there within the Government of Wales Act."*[92]

**121.** Ar 6 Chwefror 2025, rhannodd y Dirprwy Brif Weinidog ganllawiau cryno ar fonitro ac arolygiadau â'r Pwyllgor.[93]

## Cynlluniau rheoli

**122.** Honnodd y Dirprwy Brif Weinidog fod cynlluniau rheoli yn 'hollol hanfodol' i'r system newydd.[94] Dywedodd:

> *"We expect that a management plan will be produced for all, under the new categorisation, category 1 and 2 tips, and, on a case-by-case basis, management plans for lower rated tips as appropriate as well…The purpose of them is to set out the work that's needed—maintenance or other work—to reduce the risk of the problems escalating and the risk of any tip failures. They'll be very site specific; they could identify, for example, one-off operations to remove or reduce threats to the stability of a tip."*[95]

**123.** Ychwanegodd y bydd cynlluniau rheoli yn mynd i'r afael â pharodrwydd ar gyfer argyfyngau ac ymateb i ddigwyddiadau.

**124.** Pan ofynnwyd iddo pam nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau rheoli, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"We do think, with the management plans, that, genuinely, the right place for this is within guidance, but we do recognise that there may be a case for having some clarity on the Bill about what should be in those management plans".*[96]

**125.** Ychwanegodd:

> *"if you have it predominantly within the guidance, then that allows for a more collaborative space where those agencies*

[92] Cofnod y Trafodion, paragraff 108, 12 Rhagfyr 2024
[93] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Chwefror 2025
[94] Cofnod y Trafodion, paragraff 169, 6 Mawrth 2025
[95] Cofnod y Trafodion, paragraff 169, 6 Mawrth 2025
[96] Cofnod y Trafodion, paragraff 172, 6 Mawrth 2025

> *can come together. So, I genuinely think there's a cogent argument, but it may be that there is something more that we can put on the face of the Bill, and we're willing to look at that."*[97]

**126.** Ar 6 Chwefror 2025, rhannodd y Dirprwy Brif Weinidog ganllawiau cryno gyda'r Pwyllgor ar gynlluniau rheoli.[98]

## Ein barn ni

**Cofrestr gynhwysfawr o'r holl domenni nas defnyddir**

Rydym yn croesawu creu cofrestr hygyrch i'r cyhoedd o domenni nas defnyddir. Fel llawer o gyfranwyr, credwn y byddai'n fuddiol cael cofrestr gynhwysfawr, gan gynnwys y tomenni nas defnyddir hynny nad ydynt wedi eu categoreiddio. Bydd hyn yn sicrhau eglurder a sicrwydd i berchnogion a'r cyhoedd ehangach, yn enwedig cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i weithredu hyn.

Rydym yn cydnabod y bydd angen diwygiadau canlyniadol i'r darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 2 i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn gyflawnadwy.

**Gofynion monitro ac arolygu**

Fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn, "Mae cyfundrefn fonitro sydd wedi'i diffinio'n glir yn elfen sylfaenol o unrhyw gyfundrefn reoli newydd i roi hyder i'r cyhoedd bod tomenni'n cael eu hasesu". Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn darparu manylion ar y drefn fonitro - yn hytrach, mae'n gosod dyletswydd gyffredinol ar yr Awdurdod i fonitro tomenni nas defnyddir yn y gofrestr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i roi arweiniad i'r Awdurdod ar sut i gyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau monitro ac adrodd, ac amlder ac amseriad arolygiadau, ymhlith pethau eraill. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, o ystyried bod y canllawiau cryno wedi eu rhannu â'r Pwyllgor ar ddiwedd Cyfnod 1 y broses graffu, nid oeddem yn gallu gofyn am farn rhanddeiliaid ar ei gynnwys. Er hynny, rydym yn

[97] Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 6 Mawrth 2025
[98] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Chwefror 2025

ailadrodd ein bod ni o'r farn nad yw'n briodol defnyddio canllawiau i lenwi manylion polisi y byddem fel arfer yn disgwyl eu gweld mewn deddfwriaeth.

Mae'n hanfodol bod y cyhoedd, ac yn enwedig cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir, yn gallu bod yn hyderus bod y tomenni hynny a allai fod yn risg yn destun trefniadau monitro ac arolygu trylwyr ac effeithiol. Mae gadael y manylion i ganllawiau yn golygu y gellid gwneud newidiadau sylweddol i'r drefn fonitro heb ymgynghori priodol na chraffu ar y Senedd. Mae hyn yn peri pryder i ni.

Ein ffafriaeth gref yw i ofynion sylfaenol ar gyfer monitro ac arolygu, ac amlder arolygiadau yn enwedig, gael eu nodi mewn rheoliadau. Ni fyddai'r gofynion sylfaenol hyn yn gwneud y Bil yn llai 'parod ar gyfer yn y dyfodol' ond byddent yn diogelu rhag y posibilrwydd o wanhau'r gyfundrefn. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi hyn ar waith. Os nad yw Llywodraeth Cymru o blaid, credwn y dylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau i'r Awdurdod ar fonitro ac arolygu, ac i'r canllawiau hyn fod yn destun ymgynghoriad.

Rydym yn cydnabod y gellid gadael materion technegol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau monitro ac arolygu yn rhesymol i ganllawiau. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod addasu ei ddull gweithredu - er enghraifft, i ystyried datblygiadau mewn technoleg.

**Cynlluniau rheoli**

Fel y nodwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog, mae cynlluniau rheoli yn gwbl hanfodol i'r drefn newydd. Ategwyd hyn gan y dystiolaeth a gawsom gan gyfranwyr.

Yn ôl y canllawiau cryno, "Pwrpas cynllun rheoli fydd darparu gwybodaeth am domen benodol, a darparu strategaeth reoli ragweithiol a chymesur ar gyfer tomen nas defnyddir. Bydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth a'r manylion sydd eu hangen i fonitro a chynnal diogelwch y domen nas defnyddir, ochr yn ochr â gwybodaeth benodol am nodi a rheoli risgiau a datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer tomenni penodol."

Mae'n rhyfeddol, felly, fod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â gosod cynlluniau rheoli ar sail statudol. Mae hepgor cynlluniau rheoli yn wendid allweddol yn y Bil. Mae'n gadael bwlch sylweddol ac annymunol yn y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi nodi'r bwriad i domenni nas defnyddir categori 1 a 2 gael cynlluniau rheoli, ac i domenni categori 3 a 4 gael cynlluniau os oes angen. Credwn fod hwn yn ddull synhwyrol a chymesur. Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd yr angen i gynlluniau rheoli gael eu gosod ar sail statudol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddarparu dyletswydd ar yr Awdurdod i greu a chynnal cofrestr gynhwysfawr o'r holl domenni nas defnyddir.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i:

- wneud rheoliadau ar fonitro ac archwilio tomenni nas defnyddir. Rhaid i'r rheoliadau hyn bennu amlder lleiaf arolygiadau ar gyfer pob categori o domenni, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, a phobl eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn gwneud rheoliadau.

Dylai rheoliadau o'r fath ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 12.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn Argymhelliad 11, dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru:

- roi arweiniad i'r Awdurdod ar fonitro ac arolygu, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, a phobl eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn rhoi arweiniad.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil:

- i roi dyletswydd ar yr Awdurdod i ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir sydd yng nghategori'r rhai sy'n peri pryder mwyaf i'r Awdurdod (categorïau 1 a 2),
- i alluogi'r Awdurdod i ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni nas defnyddir sydd yn y categori sy'n achosi'r pryder lleiaf i'r Awdurdod (categorïau 3 a 4), a hefyd

- i gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi isafswm cynnwys cynlluniau rheoli. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ac eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir. Dylai rheoliadau o'r fath ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

## Pennod 2: Asesu tomenni nas defnyddir

Mae Pennod 2 yn darparu ar gyfer asesu tomenni nas defnyddir, ac yn benodol ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflawni'r canlynol—

(a) asesiad rhagarweiniol o domenni nas defnyddir, nad ydynt yn y gofrestr, er mwyn nodi'r rhai y gallai fod angen eu cynnwys;

(b) asesiad llawn o'r tomenni hynny a nodwyd gan asesiad rhagarweiniol fel rhai y gallai fod angen eu cynnwys ar y gofrestr; ac

(c) mewn rhai amgylchiadau, asesiad llawn o domenni sydd eisoes ar y gofrestr.

## Diffyg manylion ar asesiadau

**127.** Roedd cefnogaeth eang i'r dull 'dau gam' o asesiadau a nodir yn y Bil. Fodd bynnag, tynnodd sawl cyfrannwr sylw at ddiffyg manylion ar sut byddai asesiadau'n cael eu cynnal a chan bwy, ac ar y fethodoleg asesu. Bu galwadau am gynnwys rhagor o fanylion naill ai yn y Bil, mewn is-ddeddfwriaeth, neu mewn canllawiau.

**128.** Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae'r fethodoleg asesu yn agwedd sylfaenol ar y ddeddfwriaeth hon, a dyma'r hyn mae'r cynlluniau cofrestru, categorïau, arolygu, cynnal a chadw a rheoli i gyd yn dibynnu arno. Nad yw'n cael ei esbonio'n fanwl ar hyn o bryd yn ôl y Cyngor. Honnodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio:

> *"what constitutes a full assessment under Sections 15 and 16 could be outlined in greater detail. For instance, it is unclear whether this would include intrusive ground investigation and/or proprietary software 2 and 3-D modelling."*[99]

**129.** Dywedodd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio y byddai'n gliriach pe bai manylion asesiadau yn cael eu nodi, naill ai mewn is-ddeddfwriaeth neu

[99] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio

mewn canllawiau. Gofynnodd am eglurhad ynghylch a fyddai asesiadau llawn yn cynnwys ymchwiliad tir, profi pridd a dadansoddiad o sefydlogrwydd llethrau.[100]

**130.** Argymhellodd Cymdeithas Ddaearegol Prydain fod y Bil yn darparu'n benodol ar gyfer dull tryloyw a chydnabyddedig sy'n seiliedig ar risg o asesu a chategoreiddio. Ychwanegodd:

> *"The rigour of the risk analysis should also be commensurate with tip category, with greater effort given to the assessment of risk presented by tips in the highest categories. This could include numerical modelling of slope stability and likely runouts, consideration for multi-hazard and cascading-hazard and potential impacts under different future climate scenarios."*[101]

**131.** Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio ei bod yn 'hanfodol' bod asesiadau rhagarweiniol a llawn yn cael eu cynnal yn unol â Safonau Prydain. Ychwanegodd nad oes unrhyw gyfeiriad at god ymarfer cymeradwy wrth asesu a chategoreiddio tomenni, ac y dylid cywiro hyn.[102] Codwyd pwynt tebyg gan Jacobs UK Limited.

**132.** Pwysleisiodd nifer o gyfranwyr yr angen i asesiadau gael eu cynnal gan rai cymwys sy'n meddu ar gymwysterau priodol, gan dynnu sylw at brinder arbenigwyr technegol yng Nghymru a thu hwnt. Awgrymodd Stephen Smith bod angen rhoi cymorth i ddatblygu carfan newydd o aseswyr cynghori, o bosibl drwy annog newidiadau i gwricwla cyrsiau prifysgol.[103]

## Y dull o ymdrin ag asesiadau rhagarweiniol

**133.** Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir bwriad Llywodraeth Cymru i asesiadau rhagarweiniol fod yn rhai 'bwrdd gwaith'. Cododd nifer o gyfranwyr bryder ynghylch effeithiolrwydd y dull hwn. Dywedodd Kevin Kinsey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent):

> *"I would question the validity of [a desk-based assessment]… because I've certainly seen instances where tips have been identified just on a desktop basis, and when you actually go on*

[100] Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Awdurdod Adfer Mwyngloddio
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, Arolwg Daearegol Prydain
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, Stephen Smith

> *site and visit them what you're presented with is something totally different…nothing replaces just going to site and just having a walkover".*[104]

**134.** Awgrymodd cynrychiolwyr llywodraeth leol a'r Rhwydwaith Gweithredu Glo y dylai archwiliad ffisegol fod yn rhan o'r asesiad rhagarweiniol ar gyfer yr holl domenni nas defnyddir. Roedd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig o'r farn y byddai'n ddoeth cynnwys archwiliad ffisegol ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yn benodol.

## Adroddiadau asesiadau

**135.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gynhyrchu adroddiad o bob asesiad rhagarweiniol a llawn mae'n ei gynnal. Nid oes angen i'r adroddiadau hyn fod ar gael i'r cyhoedd. Pan ofynnwyd iddo esbonio'r rhesymeg dros hyn, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, "yn ein barn ni, nid oes unrhyw fudd i'r cyhoedd o gyhoeddi adroddiadau pob asesiad rhagarweiniol a llawn".[105] Gofynnodd y Pwyllgor am farn Cyfeillion y Ddaear a'r Rhwydwaith Gweithredu Glo ar y mater hwn. Dywedodd Cyfeillion y Ddaear:

> *"having worked with communities for a number of years on all sorts of different environmental justice issues, issues of transparency and access to information just come up time and time again, and where that transparency isn't there, it creates distrust and fear and concern in local communities…I'd say there is a significant public interest in making [reports] available, whether it's for reassurance that everything's been considered, and there isn't a risk, or for awareness that there may be concerns."*[106]

**136.** Adleisiodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo hyn. Er bod y Rhwydwaith yn cydnabod y bydd Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn fodd i'r cyhoedd gael adroddiadau, awgrymodd fod y broses yn anodd ei llywio ac yn cymryd llawer o amser.

---

[104] Cofnod y Trafodion, paragraffau 392 i 395, 30 Ionawr 2025
[105] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025
[106] Cofnod y Trafodion, paragraff 188, 5 Chwefror 2025

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Manylion asesiadau

**137.** Wrth esbonio pam bydd manylion ar asesu yn cael eu nodi mewn canllawiau, yn hytrach nag yn y Bil neu mewn rheoliadau, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"A number of the more technical elements of the regime, including the approach to assessment, are going to need expert input from the authority. If we use guidance, supporting that principle of an adaptive futureproofed regime, it allows the practical experience of the authority to feed into it and into that guidance."*[107]

**138.** Ar 27 Chwefror 2025, rhannodd y Dirprwy Brif Weinidog ganllawiau cryno ar asesiadau gyda'r Pwyllgor.[108]

**139.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn rhagweld y bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu ei raglen waith ar gyfer asesiadau rhagarweiniol, gan gynnwys yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Eglurodd

> *"Oherwydd ei natur dechnegol iawn, nid dyma'r math o raglen sy'n addas ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.*
>
> *Fodd bynnag, mae adran 13(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r rhaglen. Fel awdurdod cyhoeddus, pe bai unigolion, yn ystod datblygiad y rhaglen, yn cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod am gynnwys y rhaglen, byddai'r rhain yn cael eu hystyried."*[109]

### Asesiadau rhagarweiniol

**140.** Wrth esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal asesiadau rhagarweiniol, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y disgwylir i'r holl domenni glo nas defnyddir fod wedi bod yn destun archwiliad ffisegol gan yr Awdurdod Adfer

---

[107] Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 12 Rhagfyr 2024
[108] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 27 Chwefror 2025
[109] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025

Safleoedd Mwyngloddio erbyn i'r Awdurdod fod yn weithredol (fel rhan o'r rhaglen waith barhaus ar ddiogelwch tomenni glo nas defnyddir). Dywedodd y bydd yr adroddiadau arolygu hyn ar gael i'r Awdurdod pan fydd yn cynnal asesiadau rhagarweiniol. Fel y cyfryw, ni ragwelir y bydd archwiliad ffisegol pellach yn cael ei gynnal fel rhan o asesiadau rhagarweiniol.

## Adroddiadau asesiadau

**141.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod yn rhaid i'r Awdurdod roi gwybod i bob perchennog a phob meddiannydd y tir lle saif y domen am gasgliadau adroddiad asesu llawn. Honnodd yr ystyrir bod hyn "yn briodol ac yn ddigonol gan y bydd y casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad perthnasol yn effeithio'n uniongyrchol arnynt".[110]

**142.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, "Yn ein barn ni, nid oes unrhyw fudd i'r cyhoedd o gyhoeddi adroddiadau pob asesiad rhagarweiniol a llawn".[111] Eglurodd y bydd y cyhoedd yn gallu gofyn am wybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod (e.e. o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004) yn amodol ar gyfyngiadau ar ddatgelu o dan ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol.

**143.** Honnodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"Yn amodol ar y ddeddfwriaeth a'r safonau perthnasol ar gyfer trin a rhyddhau gwybodaeth sensitif, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod sicrhau bod yr holl wybodaeth y bernir ei bod yn angenrheidiol ar gael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyhoedd a rhoi'r holl sicrwydd angenrheidiol bod tomen segur yn ddiogel a chadarn."*[112]

**144.** Ychwanegodd bod hynny'n wahanol, fodd bynnag, i wneud datgeliad llawn o bob asesiad rhagarweiniol a llawn. Mae goblygiadau sylweddol o wneud hynny, dywedodd. Gan hynny, barnodd bod y cydbwysedd yn hollol iawn.[113]

[110] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025
[111] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025
[112] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Ionawr 2025
[113] Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 6 Mawrth 2025

## Ein barn ni

### Diffyg manylder ar asesiadau

O ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, credwn fod y dull 'dau gam' o asesiadau yn rhesymol ac yn gymesur, yn enwedig o ystyried ymestyn y drefn newydd i domenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo a'r angen i flaenoriaethu tomenni sy'n peri bygythiad, neu a allai fod yn fygythiad.

Er gwaethaf yr uchod, rydym yn pryderu am y diffyg manylion yn y Bil ar yr hyn a fydd yn cael ei asesu, a sut bydd hynny'n cael ei wneud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i roi arweiniad i'r Awdurdod ar asesiadau. Nodwn fod rhai cyfranwyr yn fodlon â'r dull hwn, am resymau hyblygrwydd. Rydym yn cydnabod y gellid gadael materion technegol sy'n ymwneud ag asesiadau yn rhesymol i ganllawiau. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod addasu ei ddull - er enghraifft, i ystyried datblygiadau mewn technoleg.

Fodd bynnag, rydym yn ailadrodd nad ydym o'r farn ei bod yn briodol defnyddio canllawiau i lenwi manylion polisi y byddem fel arfer yn disgwyl eu gweld mewn deddfwriaeth. Ein ffafriaeth gref yw i ofynion sylfaenol ar gyfer asesiadau rhagarweiniol a llawn gael eu nodi mewn rheoliadau. Ni fyddai'r gofynion sylfaenol hyn yn gwneud y Bil yn llai 'parod ar gyfer y dyfodol' ond byddai'n diogelu rhag y posibilrwydd o wanhau'r gyfundrefn. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi hyn ar waith. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno, credwn y dylai Gweinidogion Cymru fod o dan ddyletswydd i roi canllawiau i'r Awdurdod ar asesu, ac i'r canllawiau hyn fod yn destun ymgynghoriad.

### Dull cynnal asesiadau rhagarweiniol

Rydym yn nodi'r gefnogaeth mewn tystiolaeth bod asesiadau rhagarweiniol ar gyfer tomenni nas defnyddir, yn enwedig tomenni glo, yn cynnwys archwiliad ffisegol. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog y bydd yr holl domenni glo nas defnyddir wedi cael arolygiad ffisegol fel rhan o raglen waith barhaus Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch tomenni glo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd i'r afael â thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo.

Credwn y dylai rheoliadau ar asesiadau (a argymhellwyd yn gynharach) nodi bod asesiad rhagarweiniol yn cynnwys arolygiad ffisegol. Er mwyn osgoi dyblygu,

ni ddylid gofyn i'r Awdurdod gynnal archwiliad ffisegol o domen nas defnyddir sydd wedi ei harchwilio'n ddiweddar gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi hyn ar waith.

**Adroddiadau asesiadau**

Er ein bod ni'n nodi honiad y Dirprwy Brif Weinidog nad oes "unrhyw fudd i'r cyhoedd o gyhoeddi adroddiadau pob asesiad", nid ydym o'r un farn. Fel dewis diofyn, rydym yn disgwyl i'r Awdurdod fod yn gwbl dryloyw, yn enwedig i helpu i feithrin hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Ein dewis fyddai i'r Awdurdod gyhoeddi pob adroddiad o asesiadau, ac i'r Bil gael ei ddiwygio i ddarparu ar gyfer hyn. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno, credwn y dylai'r Awdurdod gyhoeddi casgliadau o adroddiadau. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cael adroddiad llawn allu gwneud hynny ar gais, heb orfod dibynnu ar eu hawliau statudol presennol i fynediad at wybodaeth gyhoeddus ac amgylcheddol.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi nodi'n glir y bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod "sicrhau bod yr holl wybodaeth y bernir ei bod yn angenrheidiol ar gael i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r cyhoedd a rhoi'r holl sicrwydd angenrheidiol bod tomen segur yn ddiogel a chadarn". Er ein bod ni'n croesawu hyn, rydym yn nodi nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd, gan gynnwys cymunedau yr effeithir arnynt gan domenni nas defnyddir. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru egluro sut bydd yn gweithredu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog a sicrhau bod gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod.

## Argymhellion

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i:

- wneud rheoliadau sy'n pennu gofynion sylfaenol ar gyfer asesiad rhagarweiniol a llawn. Dylai hyn gynnwys beth fydd asesiad rhagarweiniol a llawn yn ei gynnwys, yr hyn y bydd disgwyl i bob asesiad ei gynnwys, a lleiafswm cynnwys adroddiadau arolygu, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, a rhai eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn gwneud rheoliadau.

Dylai rheoliadau o'r fath ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rheoliadau ar asesiadau (gweler Argymhelliad 14) yn darparu ar gyfer asesiad rhagarweiniol i gynnwys arolygiad ffisegol. Dylai'r rheoliadau ddarparu nad yw'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal archwiliad ffisegol o domen nas defnyddir sydd wedi ei harolygu yn y ddwy flynedd cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

**Argymhelliad 16.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn Argymhelliad 14, dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i:

- roi arweiniad i'r Awdurdod ar asesiadau rhagarweiniol a llawn, ac
- ymgynghori ag arbenigwyr perthnasol, rhanddeiliaid, ac eraill sydd â diddordeb mewn tomenni nas defnyddir cyn rhoi arweiniad.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyhoeddi adroddiadau o asesiadau rhagarweiniol a llawn.

**Argymhelliad 18.** Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon derbyn Argymhelliad 17, dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod yr Awdurdod yn:

- cyhoeddi ei gasgliadau o adroddiadau asesiadau rhagarweiniol a llawn, ac yn
- darparu mynediad at adroddiadau o asesiadau rhagarweiniol a llawn ar gais, heb i unigolyn orfod dibynnu ar ei hawl statudol i fynediad at wybodaeth gyhoeddus ac amgylcheddol.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn mynd ati i weithredu'r ymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Dylai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â chymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir.

## Pennod 3 - Cofrestru a dadgofrestru tomenni nas defnyddir

Mae Pennod 3 yn nodi'r broses mae'n rhaid i'r Awdurdod ei dilyn pan fydd yn bwriadu cofrestru tomen nas defnyddir neu dynnu tomen oddi ar y gofrestr.

**145.** Cwestiynodd sawl cyfrannwr sut bydd yr Awdurdod yn cael gwybod pan fydd angen asesiad rhagarweiniol ychwanegol ar domen nas defnyddir nad oedd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru (ac felly'n domen 'heb ei chofrestru') (o dan adran 14).

**146.** Gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am eglurhad ynghylch a fydd manylion tomenni nas defnyddir 'heb eu cofrestru' yn cael eu cadw ar wahân gan yr Awdurdod, ac a fydd yr tomenni hynny'n cael eu monitro am unrhyw newid posibl mewn amgylchiadau.

**147.** Awgrymodd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo y dylai'r Bil gynnwys gofyniad ar berchnogion i roi gwybod i'r Awdurdod am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â thomen nas defnyddir 'heb ei chofrestru'. Awgrymodd hefyd y dylai perchnogion gael y pŵer i ofyn am asesiad newydd gyda rhesymeg berthnasol.[114]

**148.** Roedd y cyfranwyr hynny a wnaeth sylwadau ar yr hawl i apelio yn erbyn cofrestru (neu ddadgofrestru) yn fodlon ar y dull a gymerwyd.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**149.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'r darpariaethau rhannu gwybodaeth yn adran 57 yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau a allai ysgogi asesiad rhagarweiniol ychwanegol. Ychwanegodd y byddai angen i awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a thirfeddianwyr hefyd, rybuddio'r awdurdod am rywbeth a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i'w hasesiad cychwynnol o'r safle hwnnw.[115]

**150.** Darparodd y Dirprwy Brif Weinidog enghreifftiau o amgylchiadau a fyddai'n debygol o ysgogi'r Awdurdod i gynnal asesiad rhagarweiniol ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau ar safle neu'n gyfagos iddo a allai gynyddu'r risg o ansefydlogrwydd, neu ddigwyddiad tywydd garw.

## Ein barn ni

Rydym yn fodlon yn fras ar y darpariaethau ar gofrestru a dadgofrestru tomenni nas defnyddir. Rydym o'r farn y bydd creu cofrestr gynhwysfawr o'r holl domenni nas defnyddir, sy'n rhywbeth rydym wedi ei argymell, yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan gyfranwyr mewn tystiolaeth.

[114] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo
[115] Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 6 Mawrth 2025

## Pennod 4 - Categorïau tomenni nas defnyddir

Bydd yr Awdurdod yn rhoi'r holl domenni nas defnyddir sy'n cael eu cofnodi ar y gofrestr mewn categori penodol, yn seiliedig ar y gwahanol raddau mae'r tomenni nas defnyddir yn achosi pryder i'r Awdurdod. Mae Pennod 4 yn nodi'r categorïau o domenni nas defnyddir, sut bydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar gategoreiddio ac yn darparu proses ar gyfer adolygu categoreiddio.

**151.** Mae Adran 25 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi datganiad o'i bolisi ar gategoreiddio tomenni nas defnyddir. Dywedir yn y Nodiadau Esboniadol y rhagwelir y bydd y polisi ar gategoreiddio tomenni nas defnyddir yn cynnwys materion fel ymagwedd yr Awdurdod at gategoreiddio, a disgrifiad o'r categorïau gwahanol.

**152.** Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf nad yw'r Bil yn cynnwys amserlen lle mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei ddatganiad.

**153.** Awgrymodd sawl cyfrannwr y dylai'r Awdurdod ymgynghori ar ei bolisi arfaethedig ar gategoreiddio. Dywedodd Kevin Kinsey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent) y byddai ymgynghori ag awdurdodau lleol ac arbenigwyr perthnasol eraill yn 'amhrisiadwy' wrth ddatblygu'r polisi. Fodd bynnag, dywedodd Carl Banton (yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio) bod ddull cyson yn bodoli'n barod sy'n gweithio, ac nad oedd yn gweld faint yn rhagor o fudd a fyddai'n dod o ymgynghori.[116] Tybiodd y bydd yr Awdurdod yn parhau â'r dull presennol o gategoreiddio (a ddefnyddir gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio i neilltuo categorïau interim i domenni glo nas defnyddir).

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**154.** Pan ofynnwyd iddo pam mae'r Bil yn galluogi'r Awdurdod i osod ei bolisi ei hun ar gyfer categoreiddio, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"I think it's really important that we develop the criteria with the relevant experts in the new authority once they are in place. And I also believe they'll need to be kept under review. So, it's*

[116] Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 30 Ionawr 2025

> *important we have that flexibility to respond to circumstances and to do that at pace."*[117]

**155.** Ychwanegodd bod y dull a gymerwyd yn taro'r cydbwysedd cywir, gan nodi'r materion y mae angen eu hystyried a rhoi'r hyblygrwydd hwnnw i'r awdurdod arbenigol, sef yr awdurdod, i benderfynu ar yr union fanylion.[118]

**156.** Er nad yw'r Bil yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i ymgynghori ar ei bolisi ar gategoreiddio, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'n disgwyl iddo wneud hynny.

## Ein barn ni

Rydym yn fodlon ar y cyfan ar y darpariaethau ar gyfer categorïau o domenni nas defnyddir a'r dull a gymerir o gategoreiddio. Mae awydd clir ymhlith rhai cyfranwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o ddiogelwch tomenni nas defnyddir i helpu i lunio polisi'r Awdurdod ar gategoreiddio. Er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Awdurdod fod o dan ddyletswydd i ymgynghori ar ei gynigion polisi. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Argymhelliad

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi dyletswydd ar yr Awdurdod i ymgynghori â rhanddeiliaid, arbenigwyr perthnasol ac eraill sydd â diddordeb mewn diogelwch tomenni nas defnyddir, ar y polisi arfaethedig ar gyfer categoreiddio.

## Pennod 5 - Newidiadau hysbysadwy i'r gofrestr

Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth am newidiadau hysbysadwy i'r gofrestr. Mae'r Bil yn diffinio'r hyn a olygir gan newid hysbysadwy, y broses mae'n rhaid i'r Awdurdod ei dilyn os yw'n bwriadu gwneud newid o'r fath, a'r broses benderfynu gysylltiedig.

**157.** Prin oedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ar y darpariaethau ym Mhennod 5.

[117] Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 12 Rhagfyr 2024
[118] Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 12 Rhagfyr 2024

## Ein barn ni

Ni wnaethom ystyried y darpariaethau ym Mhennod 5 yn fanwl. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall, rydym yn fodlon ar y darpariaethau.

Er gwaethaf yr uchod, rydym yn ymwybodol o adroddiadau diweddar na fydd penderfyniadau i newid categori tomenni glo nas defnyddir fel rhai risg uwch wedi cael eu cyfathrebu'n ddigonol o bosibl i gymunedau sy'n byw yn y cyffiniau. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn disgwyl i wybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â chymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir. Dylai Llywodraeth Cymru nodi disgwyliad clir i'r Awdurdod roi gwybod i'r cymunedau hynny am unrhyw newid i gategoreiddio'r tomenni hynny.

## Argymhelliad

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru osod disgwyliad clir i'r Awdurdod roi gwybod i gymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir am unrhyw newid i gategori'r tomenni hynny.

## Pennod 6 – Darpariaeth atodol

Mae Pennod 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n ategu'r darpariaethau eraill yn Rhan 2. Mae adran 31 yn gwneud darpariaeth ar gyfer iawndal am ddifrod neu aflonyddwch o ganlyniad i weithgarwch penodol a gyflawnir o dan Bennod 1 neu 2 o Ran 2. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 - Hawliadau am gyfraniadau gan berchnogion a chyfranwyr. Mae adran 32 yn ei gwneud yn drosedd rhwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau o dan Ran 2 o'r Bil.

## Iawndal am ddifrod neu aflonyddwch

**158.** Mae adran 31 yn darparu bod gan bersonau penodol hawl i iawndal am ddifrod i dir neu eiddo arall, neu am aflonyddu ar fwynhad rhywun o dir, sy'n deillio o weithgareddau'r Awdurdod (a bennir yn yr adran honno). Croesawodd y Sefydliad Siartredig Adeiladu'r darpariaethau ar gyfer iawndal. Gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am eglurhad ar ystyr “eiddo” ac o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud hawliad ar sail mwynhad person o'r tir. Awgrymodd mai dim ond personau sydd â buddiant yn y tir ddylai fod â'r hawl i iawndal am aflonyddu ar fwynhad.

## Cosbau

**159.** O dan adran 32(2), mae un a gafwyd yn euog o rwystro gweithgareddau monitro neu asesiadau yn destun dirwy. Awgrymodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig y dylai'r Bil ddarparu'n benodol bod y ddirwy yn ddiderfyn, fel nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch canlyniadau posibl cyflawni trosedd.[119] Gwnaeth yr un pwynt mewn perthynas ag adran 39(2) (cosb am fethu cydymffurfio â hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog y tir gyflawni gweithrediadau).

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Hawliadau digolledu

**160.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau a fydd yn darparu enghreifftiau sy'n dangos sut gall gwahanol sefyllfaoedd sbarduno hawl i iawndal. Dywedodd y bydd yr enghreifftiau yn dangos gwahanol ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar iawndal.

**161.** Ar fater iawndal am aflonyddu ar fwynhad person o dir, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, "rydym o'r farn ei bod yn rhesymol ac yn briodol i'r person hwnnw fynd ati i adennill digollediad". Ychwanegodd y canlynol:

> *"Gallai enghraifft o ble y gallai digollediad fod yn briodol fod pan fo angen cau maes gwersylla dros dro tra bod gweithrediadau'n cael eu cynnal a bod perchennog y tir yn dioddef gostyngiad mewn incwm o ganlyniad, neu lle nad yw ffermwr yn gallu ffermio darn penodol o dir yn ystod gweithrediadau."*[120]

**162.** Ar 6 Chwefror 2025, rhannodd y Dirprwy Brif Weinidog ganllawiau cryno gyda'r Pwyllgor ar hawliadau iawndal.[121]

---

[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[120] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 22 Ionawr 2025
[121] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 6 Chwefror 2025

### Cosbau

**163.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod o'r farn bod y Bil yn nodi'n glir ble mae dirwyon yn ddiderfyn neu lle mae terfynau ar ddirwyon.[122] Eglurodd fod dirwy yn ddiderfyn, a bydd y swm yn cael ei bennu gan y llys.

## Ein barn ni

Rydym yn croesawu bwriad y Dirprwy Brif Weinidog i roi arweiniad ar hawliadau iawndal. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd mewn tystiolaeth. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau i ategu'r gwaith o weithredu'r Bil yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar hawliadau iawndal.

Ar fater dirwyon, rydym yn fodlon ar y dull a gymerwyd. Fodd bynnag, nodwn bod y Bil (yn wahanol i Ddeddf 1969) yn darparu ar gyfer dirwyon diderfyn. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y newid hwn, a newidiadau eraill sy'n deillio o'r Bil yn ehangach, yn cael eu dwyn i sylw pawb sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddynt.

Rydym yn fodlon ar y darpariaethau ym Mhennod 6.

## Argymhellion

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau ar hawliadau iawndal, ac i ymgynghori cyn rhoi canllawiau.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod perchnogion tir, a phersonau eraill mae'r newidiadau i'r drefn diogelwch tomenni nas defnyddir sy'n deillio o'r Bil yn effeithio arnynt, yn ymwybodol ac yn deall goblygiadau'r newidiadau hynny.

[122] Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 6 Mawrth 2025

# 5. Rhan 3 – Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni

## Pennod 1 - Ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir gynnal gweithrediadau

Mae Pennod 1 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod fynnu bod perchennog tir yn cynnal gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir i'w hatal rhag dod yn fwy ansefydlog, er mwyn atal neu leihau bygythiadau i les dynol. Mae'n gwneud darpariaethau ynghylch hawl y perchennog i fynd ar ei dir i gynnal gweithrediadau o'r fath, pan nad y perchennog yw meddiannydd y tir. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi copïau i bartïon â buddiant o unrhyw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gynnal gweithrediadau o'r fath – er enghraifft, meddianwyr y tir.

Mae Pennod 1 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion cysylltiedig, fel hawliau apelio yn erbyn hysbysiad a gosod cosb am fethu cydymffurfio â hysbysiad. Mae hefyd yn galluogi'r Awdurdod i ganslo hysbysiad ar ôl iddo gael ei roi ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu treuliau mewn sefyllfa o'r fath.

## Tynnu a gwaredu deunyddiau o domen nas defnyddir

**164.** Mae adran 34 yn gwneud darpariaethau ynghylch hawl y perchennog i fynd ar ei dir i gynnal gweithrediadau o'r fath, pan nad y perchennog yw meddiannydd y tir. Mae hefyd yn galluogi'r perchennog i symud a gwaredu eiddo sydd wedi ei leoli ar y tir sy'n perthyn i berson arall. Darperir hawliau tebyg i'r Awdurdod yn adran 43.

**165.** Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, gallai "eiddo" gynnwys "deunyddiau o'r domen nas defnyddir ei hun" - er enghraifft, glo. Mynegodd Cyfeillion y Ddaear bryder am hyn.

## Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad

**166.** Mae adran 36 yn darparu y gall perchennog tir sy'n cael hysbysiad i gynnal gweithrediadau apelio yn erbyn hysbysiad i Weinidogion Cymru. Rhaid gwneud

cais apêl o fewn 21 diwrnod i'r hysbysiad gael ei roi. Mae adran 36(3) a (4) yn nodi'r seiliau dros apelio.

**167.** Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio nad yw'r cyfnod 21 diwrnod lle gellir gwneud cais am apêl yn ddigonol i unrhyw dirfeddiannwr ymgysylltu ag arbenigwr a pharatoi ymateb rhesymol.[123] Galwodd am ddarparu amserlen hirach.

**168.** Roedd Daniel Therkelsen (y Rhwydwaith Gweithredu Glo) o'r farn bod y seiliau dros apelio yn eang, gan arwain at risg o apeliadau annheilwng sy'n ceisio oedi gweithrediadau. Nododd fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i ategu'r weithdrefn apelio, y gobeithiai y byddai'n lleihau'r risg hon. Ychwanegodd y bydd delio ag apeliadau yn brydlon yn lleihau'r cymhelliant i wneud cais at ddibenion oedi gweithrediadau.

**169.** O dan adran 36(3)(c), caniateir gwneud cais apêl ar y sail y gallai gweithrediadau heblaw'r rhai a bennir mewn hysbysiad osgoi neu leihau'r bygythiad i les dynol. Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio y dylai'r Bil nodi'n glir bod yn rhaid sefydlu effeithiolrwydd gweithrediadau amgen yn drylwyr.[124]

**170.** O dan adran 36(4), gellir gwneud apêl ar y sail na all y perchennog dalu costau'r gweithrediadau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad. Dywedodd y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio y dylai'r Bil fandadu bod yr hawliadau hyn yn cael eu cadarnhau gan asesiad cymwys o'r gyllideb.[125]

**171.** Mae adran 37 yn darparu y bydd ceisiadau apêl yn cael eu penderfynu gan un a benodir gan Weinidogion Cymru ("person penodedig"). Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) gael ei benodi i benderfynu ar apeliadau. Er bod Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig o'r farn mai PEDW fydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl hon, cwestiynodd pam nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer hyn yn benodol.

**172.** Pwysleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yr angen i "berson penodedig" feddu ar wybodaeth am reoli tomenni a draenio.[126]

[123] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**173.** Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu ar geisiadau apêl. Dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig y dylai'r systemau a'r strwythurau apêl fod yn eu lle o fewn y Bil yn ddelfrydol.[127] Cyfeiriodd yr Athro Lee o'r Gymdeithas at Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 fel enghraifft o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys manylion gweithdrefn apelio.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Symud a chael gwared ar ddeunyddiau o domen nas defnyddir

**174.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog y gallai deunyddiau sy'n cael eu tynnu o domen nas defnyddir a'u gwaredu wedyn gynnwys glo. Ychwanegodd:

> *"That is not the primary purpose or the underlying reason for this Bill, which is focused on stability and human welfare. The Bill only allows for sale of property, including coal, for the purpose of carrying out operations or consequential works of reinstatement. It's important to note that the new body would only recommend moving material from a tip for a safety purpose."*[128]

**175.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog, er y byddai modd caniatáu symud a gwerthu glo o dan y Bil, na fyddai hynny ar gyfer ecsbloetio masnachol.[129]

**176.** Ailadroddodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd gweithrediadau i dynnu deunydd o domen nas defnyddir yn ddarostyngedig i'r gyfraith gynllunio bresennol, polisi glo Llywodraeth Cymru a Pholisi Cynllunio Cymru.

### Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad

**177.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod o'r farn bod y cyfnod 21 diwrnod i wneud apêl yn "amserlen resymol". Eglurodd:

> *"rhoi hysbysiad yw'r dewis olaf pan fo dulliau anffurfiol wedi methu. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylai perchennog synnu os bydd yn derbyn hysbysiad o'r fath a bydd yn deall pam y cred yr Awdurdod bod gweithrediadau'n angenrheidiol…*

[127] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig
[128] Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 12 Rhagfyr 2024
[129] Cofnod y Trafodion, paragraff 57, 6 Mawrth 2025

*Mae cyfnod o 21 diwrnod yn rhoi digon o amser i unigolyn benderfynu a yw am apelio yn erbyn hysbysiad, ac mae hefyd yn cydnabod y gallai amserlen hirach ar gyfer gwneud apêl arwain at oedi a dirywiad y safle."*[130]

**178.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar apeliadau, a fydd yn tanlinellu pwysigrwydd penderfynu apeliadau yn amserol, ymhlith pethau eraill.

**179.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Brif Weinidog a oedd yn fodlon bod gan PEDW ddigon o gapasiti ac adnoddau i benderfynu ar apeliadau mewn modd amserol er mwyn osgoi oedi wrth gynnal gweithrediadau. Dywedodd ei fod yn disgwyl y byddai nifer yr apeliadau tua 10 y flwyddyn, a oedd yn "ymarferol o fewn trefniadau gwaith presennol".[131]

**180.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod o'r farn bod seiliau'r apêl yn 'rhesymol' ac yn 'deg'.[132] Ychwanegodd y canlynol:

*"if a person does launch an appeal that is without merit, just to try and delay the process, it's very important to remember the authority can undertake operations itself under section 42. So any delaying tactics wouldn't prevent necessary operations from being taken forward in a timely manner. It would also not result in the landowner avoiding the costs of the operations because the authority can seek to recover its costs where appropriate."*[133]

**181.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog lle mae apeliadau'n cael eu gwneud ar sail caledi, y bydd y person penodedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolion hynny ddarparu'r wybodaeth sy'n dangos nad oes ganddynt yr arian a bod angen gwneud dyfarniad.[134]

---

[130] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Chwefror 2025
[131] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 22 Chwefror 2025
[132] Cofnod y Trafodion, paragraff 197, 6 Mawrth 2025
[133] Cofnod y Trafodion, paragraff 197, 6 Mawrth 2025
[134] Cofnod y Trafodion, paragraff 205, 6 Mawrth 2025

## Ein barn ni

**Symud a chael gwared ar ddeunyddiau o domen nas defnyddir**

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi nodi'n glir y bydd y Bil yn galluogi tynnu a gwaredu glo dim ond at ddibenion cynnal gweithrediadau sy'n ofynnol i atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles dynol oherwydd eu hansefydlogrwydd. Er ein bod ni'n croesawu hyn, rydym yn ceisio sicrwydd pellach na fydd polisi glo Llywodraeth Cymru yn caniatáu i lo a echdynnir yn ystod y gwaith gael ei werthu at ddibenion llosgi.

**Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad**

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gyda ni ynglŷn â natur eang y seiliau apêl. Fodd bynnag, rydym yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i roi canllawiau ar apeliadau, a gobeithiwn y bydd yn helpu i fynd i'r afael â nhw.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau i ategu'r gwaith o weithredu'r Bil yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar apeliadau.

Er ein bod ni'n nodi'r alwad am ymestyn y cyfnod apêl 21 diwrnod, rydym yn derbyn y rhesymeg a gyflwynwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog mewn perthynas â hyn. Rydym yn fodlon, felly, bod y cyfnod apêl yn rhesymol ac yn briodol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach y bydd polisi glo Llywodraeth Cymru yn atal gwerthu glo a echdynnir yn ystod y gweithrediadau i sefydlogi tomen nas defnyddir at ddibenion llosgi.

**Argymhelliad 25.** Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau ar apeliadau, ac ymgynghori ar y canllawiau hyn.

## Pennod 2 - Gweithrediadau a gynhelir gan yr awdurdod

Mae Pennod 2 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod gynnal gweithrediadau ar dir i atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir neu ymdrin â'r bygythiadau hynny, neu i sefydlogi tomenni nas defnyddir i'w hatal rhag mynd yn fwy

ansefydlog, er mwyn atal bygythiadau i les pobl. Mae'n cynnwys pwerau cysylltiedig i'r Awdurdod symud a gwaredu eiddo oddi ar dir. At hynny, mae'n gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i roi gwybod i berchnogion cyn gwneud gwaith, ac i roi copi o'r hysbysiad i bartïon â diddordeb.

## Y cydgysylltiad â chyfraith amgylcheddol a chynllunio

**182.** Cododd sawl cyfrannwr bryder nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â thensiynau posibl rhwng diogelwch tomenni nas defnyddir a chyfraith amgylcheddol a chynllunio.

**183.** Er bod y Bil yn galluogi'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau "ar unwaith" i osgoi argyfwng, nododd cyfranwyr y bydd angen iddo gydymffurfio â'r gyfraith amgylcheddol a chynllunio bresennol o hyd. Rhoddodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig enghreifftiau o beth allai hyn ei olygu yn ymarferol, gan gynnwys: cael caniatâd cynllunio; cynnal asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd; cael trwydded wastraff; cael trwydded cwympo coed; a chynnal Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd Ecolegol.

**184.** Esboniodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig a chynrychiolwyr awdurdodau lleol y gallai hyn arwain at oedi wrth ymgymryd â gweithrediadau i sefydlogi tomen nas defnyddir neu arwain at gamau gorfodi yn erbyn yr Awdurdod (os gwneir gwaith heb y trwyddedau amgylcheddol a'r caniatâd cynllunio angenrheidiol).

**185.** Defnyddiodd y Cynghorydd Andrew Morgan brofiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dilyn y tirlithriad ar domen lo nas defnyddir yn Tylorstown fel enghraifft. Esboniodd fod swyddogion yr awdurdod lleol, wrth iddynt wneud gwaith glanhau brys i sicrhau diogelwch y cyhoedd, wedi cael rhybudd am fethu cael y trwyddedau amgylcheddol angenrheidiol. Dywedodd na ddylai'r sefyllfa honno fyth godi eto, a'i fod yn poeni nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r hanfodion hynny.[135]

**186.** Nododd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig fod Comisiwn y Gyfraith wedi argymell pŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru fel ffordd o ddatrys y mater o wrthdaro posibl rhwng cyfrifoldebau am ddiogelwch tomenni a gofynion rheoleiddio eraill. Awgrymodd y gellid defnyddio'r pŵer i ddarparu esemptiadau rhag unrhyw ofyniad am gydsyniad ymlaen llaw o dan ddeddfwriaeth gynllunio neu amgylcheddol. Dywedodd Cymdeithas Cyfraith

[135] Cofnod y Trafodion, paragraff 324, 30 Ionawr 2025

Amgylcheddol y Deyrnas Unedig wrth y Pwyllgor fod hynny'n ymddangos yn ffordd dda ymlaen, ond nad yw'n un sydd wedi ei chynnwys yn y Bil.[136]

**187.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod ei ganllawiau, Cynlluniau Wrth Gefn Tomenni Glo ar gyfer Safleoedd Penodol, Ystyriaethau Amgylcheddol, "yn sylfaen dda y gallai'r corff newydd adeiladu arni i ddod i gasgliad ynghylch sut i ddatrys y rhyngweithio â deddfwriaethau amgylcheddol eraill".[137]

## Atal gweithgareddau a allai effeithio ar sefydlogrwydd

**188.** Roedd rhywfaint o gefnogaeth mewn tystiolaeth i'r syniad y dylai'r Bil gynnwys pwerau i'r Awdurdod atal gweithgareddau a allai effeithio ar sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir, ac ar gyfer sancsiynau sifil cysylltiedig.

**189.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei fod wedi gorfod dibynnu ar orfodi cynllunio i atal cloddio a dyddodi deunyddiau ar domen nas defnyddir. Awgrymodd y dylai'r Awdurdod gael y pŵer i gyhoeddi 'hysbysiad stopio' i atal perchennog rhag parhau â gweithgaredd a allai fygwth sefydlogrwydd tomen. Adleisiodd yr Athro Lee (Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig) hyn, gan ychwanegu bod mwy o le i sancsiynau sifil na'r hyn mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer.[138]

**190.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf y byddai'n ddefnyddiol i'r Awdurdod gael pŵer i atal gweithrediadau yn y dyfodol a allai effeithio ar sefydlogrwydd tomenni - er enghraifft, datgoedwigo ar raddfa eang.[139]

**191.** Ynglŷn â sancsiynau sifil, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

> *"Credwn fod sancsiynau sifil yn rhan o ddull cymesur a chosteffeithiol o orfodi. Rydym yn argymell peidio ag atal cyflwyno pŵer sancsiynau sifil yn nes ymlaen."*[140]

**192.** Roedd Cyngor Sir Gâr o'r farn y dylai'r Awdurdod gael mwy o bwerau gorfodi, er nad oedd yn mynd mor bell ag awgrymu beth allai'r rhain fod.

[136] Cofnod y Trafodion, paragraff 23, 5 Chwefror 2025
[137] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru
[138] Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 5 Chwefror 2025
[139] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
[140] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Gweithrediadau "ar unwaith"

**193.** Pan ofynnwyd i'r Dirprwy Brif Weinidog sut roedd yn bwriadu datrys tensiynau a allai godi mewn sefyllfaoedd brys rhwng yr angen i ddiogelu lles dynol ac ystyriaethau amgylcheddol, dywedodd y byddai hyn yn cael sylw mewn cynlluniau rheoli. Eglurodd:

> *"mae Gweithgor Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo yn datblygu protocol ar y cyd a fydd yn nodi sut y bydd sefydliadau partner (fel awdurdodau lleol, CNC a'r Awdurdod) yn ymateb i ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â thomen nas defnyddir. Unwaith eto, bydd hyn yn cynnwys cynllunio ymlaen llaw ar gyfer achosion lle y rhagwelir y bydd posibilrwydd o wrthdaro rhwng gwaith sy'n ofynnol er mwyn diogelu'r cyhoedd a deddfwriaeth amgylcheddol."*[141]

**194.** Dywedodd hefyd bod sefydlu'r cysylltiadau a'r arferion gwaith gwell hynny ar draws yr asiantaethau a'r cyrff statudol yn ddull llawer mwy ymarferol a chymesur wrth fynd i'r afael â'r materion hyn na darparu ateb cyfreithiol.[142]

**195.** Ymhellach, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, "Nid wyf yn credu ei bod yn synhwyrol i'r Bil hwn gynnwys darpariaethau amgylcheddol penodol a allai, o ystyried cymhlethdod ac ehangder y ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol, wrthdaro â deddfwriaeth sydd wedi cael ei rhoi ar waith at ddibenion penodol, yn enwedig pan fyddwn yn wynebu'r bygythiad a achosir gan newid yn yr hinsawdd".[143]

**196.** Pan ofynnwyd iddo pa ystyriaeth a roddwyd i roi pŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru (yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith), dywedodd Chris Jones (Llywodraeth Cymru):

> *"we've had lots of discussions around this. Nobody's been able to say to me, as a policy person, which part of the environment or legislation they want to turn off. They all say, 'Have an*

[141] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[142] Cofnod y Trafodion 212, 6 Mawrth 2025
[143] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025

> *exemption', and when I say to them, 'Okay, tell me which exemption you want, for how long and for why', nobody can answer that question."*[144]

**197.** Ychwanegodd, os rhoddir cynsail lle darperir y gallu hwnnw i ddiffodd, yna roedd o'r farn bod angen llawer mwy o waith craffu a llawer mwy o feddwl.[145]

**198.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog, pe bai digwyddiad difrifol ar domen nas defnyddir, y byddai darpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn berthnasol. Ailadroddodd fwriad Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod fod yn Ymatebwr Categori 2 at ddibenion y Ddeddf honno.

## Pwerau ychwanegol a sancsiynau sifil

**199.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi diystyru cynnwys darpariaeth yn y Bil i wahardd neu ofyn am ganiatâd ar gyfer mathau penodol o weithgareddau a allai fod yn niweidiol i sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir. Dywedodd fod gan awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bwerau yn barod o dan ddeddfwriaeth cynllunio ac iechyd a diogelwch i fynd i'r afael â gweithgareddau, mewn rhai amgylchiadau. Ychwanegodd, "O ystyried ein bod yn annog dull cydweithredol, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad oes gorgyffwrdd na dryswch rhwng cyfrifoldebau yn y meysydd hyn".[146]

**200.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"Byddai unrhyw system o gyflwyno hysbysiadau stop yn system dechnegol, a byddai'n golygu cryn dipyn o weinyddu a biwrocratiaeth ychwanegol yn ogystal â pheri dryswch. Gallai defnyddio hysbysiadau stop hefyd achosi oedi, pe bai rhybudd o'r fath yn cael ei herio."*[147]

---

[144] Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 6 Mawrth 2025
[145] Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 6 Mawrth 2025
[146] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025
[147] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 17 Chwefror 2025

## Ein barn ni

**Gweithrediadau "ar unwaith"**

Ein gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol o ymdrin â diogelwch tomenni nas defnyddir a ddarperir yn y Bil yn lleihau'r risg o domenni nas defnyddir yn methu. Fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod allu cymryd camau "ar unwaith" i osgoi methiant pe bai'r angen yn codi. Clywsom y gallai rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol a chynllunio darfu ar hyn. Fel Pwyllgor, rydym yn llwyr gefnogi amddiffyniadau amgylcheddol cryf. Serch hynny, lle mae angen gweithredu i osgoi argyfwng, rhaid blaenoriaethu sicrhau diogelwch cymunedau.

Rydym yn croesawu'r camau mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd ar gynllunio wrth gefn, ac i sicrhau bod cymeradwyaeth reoleiddiol yn llyfn ac effeithlon. Fodd bynnag, nid yw'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ein perswadio y bydd hyn ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau y bydd yr Awdurdod yn gallu gweithredu'n gyflym i osgoi argyfwng.

Rydym yn ymwybodol bod tensiynau rhwng cyfrifoldebau tomenni nas defnyddir yr Awdurdod a'i rwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol a chynllunio wedi eu hamlygu gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2022, ac yn yr astudiaeth ddilynol gan Brifysgol Birmingham, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Darparodd Comisiwn y Gyfraith amrywiaeth o atebion cyfreithiol i Lywodraeth Cymru eu hystyried i'w datrys. Gan hynny, mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio mynd ar drywydd unrhyw un o'r opsiynau hyn yn y Bil.

Nid mater i'r Pwyllgor hwn yw dod o hyd i atebion cyfreithiol i faterion cymhleth. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hynny. Ein rôl ni yw tynnu sylw at unrhyw wendid posibl yn y Bil ac argymell eu bod yn cael sylw. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Bil yn galluogi'r Awdurdod i gymryd camau i osgoi methiant tomenni nas defnyddir heb gael ei ddal yn ôl gan ei rwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol a chynllunio.

**Pwerau gorfodi ychwanegol a sancsiynau sifil**

Rydym yn nodi honiad y Dirprwy Brif Weinidog bod mecanweithiau eisoes ar waith i atal neu reoli gweithgareddau a allai effeithio ar sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir. Er ein bod ni'n cydnabod yr angen i osgoi dyblygu, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu na fydd rhai gweithgareddau yn destun

rheoleiddio neu reolaeth o bosibl. Pan fo bylchau yn bodoli, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried sut gellid defnyddio'r Bil i fynd i'r afael â nhw - er enghraifft, drwy roi pwerau gorfodi i'r Awdurdod.

## Argymhellion

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i alluogi'r Awdurdod i gynnal gweithrediadau "ar unwaith" er mwyn osgoi methiant tomenni nas defnyddir heb gael ei dal yn ôl gan ei rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol a chynllunio.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaethau i atal neu reoli gweithgareddau a allai effeithio ar sefydlogrwydd tomenni nas defnyddir.

## Pennod 3 - Taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau

Mae Pennod 3 yn ymdrin â gorchmynion cyfrannu, digolledu, a galwadau am adennill treuliau gan berchnogion y tir a'r Awdurdod. At hynny, maent yn nodi hawliau perchnogion a chyfranwyr i apelio yn erbyn galwadau o'r fath.

**201.** Prin oedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ar y darpariaethau ym Mhennod 3. Roedd y cyfranwyr a wnaeth sylwadau ar y darpariaethau yn fodlon arnynt.

## Ein barn ni

Ni fuom yn ystyried y darpariaethau ym Mhennod 3 yn fanwl. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall, rydym yn fodlon ar y darpariaethau.

## Pennod 4 – Darpariaeth atodol

Mae Pennod 4 yn rhoi pŵer i'r Awdurdod gynnal ymchwiliadau ar dir i benderfynu a oes angen gweithrediadau penodedig neu a oes angen trefnu eu cyflawni. Mae'r bennod hefyd yn creu troseddau cysylltiedig.

**202.** Prin oedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ar y darpariaethau ym Mhennod 4. Roedd y cyfranwyr hynny a roddodd sylwadau ar y darpariaethau yn fodlon arnynt.

## Ein barn ni

Ni fuom yn ystyried y darpariaethau ym Mhennod 4 yn fanwl. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i awgrymu fel arall, rydym yn fodlon ar y darpariaethau.

# 6. Rhan 4 – Darpariaeth Atodol

Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau ynghylch rhannu gwybodaeth, pwerau i fynnu gwybodaeth a chosbau mewn cysylltiad â hysbysiadau sy'n gofyn am wybodaeth. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adrannau 55 i 61. At hynny, mae'n gwneud darpariaeth ynghylch pwerau mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â rhoi hysbysiad cyn mynediad, cyhoeddi gwarantau sy'n rhoi pwerau mynediad, mynediad i dir (gyda gwarant a heb warant), cosbau am rwystro mynediad i dir a mynediad i dir y Goron. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adrannau 62 i 67.

Mae Rhan 4 hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod ddarparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol a darpariaeth mewn perthynas â chanllawiau. Maent hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adrannau 68 i 70.

**203.** Prin oedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ar y darpariaethau yn Rhan 4. Roedd y cyfranwyr a wnaeth sylwadau yn fodlon ar y darpariaethau ar y cyfan, er bod eglurhad yn cael ei geisio ar faterion penodol.

## Rhannu gwybodaeth

**204.** Mae adrannau 26 a 27 yn rhoi dyletswydd ar "awdurdodau cyhoeddus perthnasol" (a ddiffinnir yn adran 55) i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Awdurdod, ac i rannu gwybodaeth benodol gyda'r Awdurdod, i ategu'r gwaith o arfer ei swyddogaethau. Roedd cefnogaeth eang i'r darpariaethau hyn. Cwestiynodd Cyfeillion y Ddaear a ddylai'r Goron ac adrannau perthnasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau hyn.

## Pwerau mynediad

**205.** Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf na fydd y pŵer i fynd ar dir heb warant (o dan adran 63) o bosibl yn welliant ar y pŵer presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan Ddeddf 1969. Ceisiodd eglurhad ar sut byddai'r pŵer yn cael ei arfer mewn gwahanol senarios.

## Canllawiau

**206.** Mae adran 69 yn gosod gofyniad ar yr Awdurdod a pherson a benodwyd i benderfynu ar geisiadau apêl (o dan adrannau 36 a 41) i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

**207.** Awgrymodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig y gallai fod angen i Weinidogion Cymru roi arweiniad i awdurdodau cyhoeddus eraill i ategu'r gwaith o weithredu'r Bil yn effeithiol. Awgrymodd y gallai fod angen diwygio adran 69 i adlewyrchu hyn.

**208.** Pwysleisiodd cyfranwyr yr angen i ganllawiau gael eu llywio gan gyngor arbenigol ac y dylent ystyried arfer da sy'n bodoli'n barod a bod yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid ehangach.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**209.** O ystyried cyfyngiadau amser, ni wnaethom gymryd tystiolaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ar y materion uchod a godwyd gan gyfranwyr.

## Ein barn ni

Ni wnaethom ystyried y darpariaethau yn Rhan 4 yn fanwl. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law, rydym yn fodlon yn fras ar y darpariaethau ar rannu gwybodaeth. Fodd bynnag, hoffem i Lywodraeth Cymru ymateb i'r materion a godwyd gan gyfranwyr (a nodir ym mharagraffau 204 i 208).

## Argymhelliad

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro:

- pa ystyriaeth a roddwyd i ymestyn y dyletswyddau yn adran 56 a 57 i'r Goron, adrannau perthnasol eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
- a yw'r pwerau mynediad yn y Bil yn ehangach na'r rhai sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan Ddeddf 1969; ac
- a yw'n bwriadu rhoi arweiniad i awdurdodau cyhoeddus (ac eithrio'r Awdurdod newydd) i gefnogi gweithredu'r Bil, a sut buasai'n gwneud hynny.

# 7. Rhan 5 – Cyffredinol

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â throseddau gan gyrff corfforedig ac yn pennu pwy gaiff ddwyn erlyniadau am droseddau o dan y Bil. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Bil, gan gynnwys gweithdrefn y Senedd sy'n gymwys i bwerau gwneud rheoliadau penodol.

Mae Rhan 5 hefyd yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rhoi hysbysiadau a dogfennau eraill o dan y Bil. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer achosion arbennig, gan gynnwys tir Eglwys Loegr. Mae'n darparu diffiniadau o rai o'r termau a ddefnyddir yn y Bil. Mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch pryd bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym, ac mae'n nodi teitl byr y Bil.

## Ystyr "tomen" a "thomen nas defnyddir"

Mae adran 81 yn nodi ystyr "tomen" a "thomen nas defnyddir".

Mae adran 81(1) ac 81(2) yn diffinio "tomen".

Mae adran 81(3) yn diffinio "tomen nas defnyddir" drwy osod tomenni sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Chwareli 1999 a Rheoliadau Mwyngloddiau 2014 y tu allan i gwmpas y Bil. Effaith hyn yw nad yw'r Bil yn berthnasol i domenni gweithredol sy'n gysylltiedig â mwyngloddiau neu chwareli gweithredol.

Mae adran 81(4) ac 81(5) yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i:

newid y diffiniad o "domen nas defnyddir" os caiff Rheoliadau 1999 a 2014 eu dirymu neu eu diwygio, a

nodi disgrifiadau penodol o domen a fyddai y tu allan i'r diffiniad o "domen nas defnyddir" naill ai'n gyfan gwbl neu at ddibenion darpariaethau penodol yn y Bil.

**210.** Ceisiodd sawl cyfrannwr eglurhad ar yr hyn fyddai o fewn ystyr "tomen". Dywedodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod y diffiniad presennol o "domen" yn Rheoliadau 1999 a 2014 yn ehangach na'r diffiniad yn y

Bil. Dywedodd y buasai'n hoffi sicrhau bod terminoleg a diffiniadau ar draws y fframwaith rheoleiddio cyfan yn cael eu halinio lle bo hynny'n bosibl.[148]

**211.** Esboniodd yr Athro Young (Comisiwn y Gyfraith), yn wahanol i'r Bil, fod y Rheoliadau presennol yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o enghreifftiau a fyddai'n dod o fewn ystyr "tomen". Ychwanegodd:

> *"what the Bill is doing by not giving those examples, in some senses, you could say, 'Well, it isn't as broad because it doesn't specifically include them', but you could also interpret that by saying, 'But it is as broad because it isn't saying they're not part of them', if that makes sense. So, a lot of that would depend on how it's interpreted in future."*[149]

**212.** Pwysleisiodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio bwysigrwydd diffiniad clir er mwyn osgoi amwysedd. Awgrymwyd y gellid egluro'r diffiniad ymhellach mewn canllawiau.

**213.** Honnodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo nad oes achos ymarferol cymhellol dros y pŵer yn adran 81(4), gan nodi bod y diffiniad o "domen" wedi aros yn ddigyfnewid ers Deddf 1969. Ychwanegodd na ddylid rhoi rhyddid di-rwystr i weinidogion ailddiffinio beth yw tomen nas defnyddir. O ran y pŵer yn adran 81(5), honnodd:

> *"This opens the door to an element of arbitrariness undermining the legislative aim of generating consistency and public trust in the application of a cohesive and even-handed regulatory regime."*[150]

**214.** Rhoddodd Thomas Glyn Watkin farn amgen, gan ddweud bod y pwerau gwneud rheoliadau yn briodol er mwyn diogelu cwmpas y gyfundrefn yn y dyfodol.[151]

**215.** Galwodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo am ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw newid arfaethedig i ystyr "tomen nas defnyddir". Dywedodd y dylid canolbwyntio ar gymunedau sy'n byw gerllaw a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid. Galwodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ymgynghori

[148] Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
[149] Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 30 Ionawr 2025
[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Rhwydwaith Gweithredu Glo
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, Thomas Glyn Watkin

ag ef ar newidiadau arfaethedig fel y gellir ystyried effeithiau ar ddeddfwriaeth bresennol.[152]

## Ystyr “bygythiad i les pobl”

Mae adran 83 yn nodi bod “bygythiad i les dynol” yn bodoli pan fo posibilrwydd o: golli bywyd dynol, salwch neu anaf dynol difrifol, difrod difrifol i eiddo, tarfu difrifol ar gyflenwad bwyd, dŵr, ynni neu danwydd, tarfu difrifol ar system gyfathrebu, tarfu difrifol ar gyfleusterau ar gyfer trafnidiaeth, neu darfu difrifol ar wasanaethau sy’n ymwneud ag iechyd.

**216.** Croesawodd cyfranwyr y diffiniad eang o “fygythiad i les dynol”. Ceisiodd y Rhwydwaith Gweithredu Glo eglurhad ynghylch a fyddai “difrod i eiddo” yn cynnwys marwolaeth neu niwed i dda byw ar dir comin.[153] Cwestiynodd Cyfeillion y Ddaear a fyddai tarfu ar gyflenwad dŵr yn cynnwys llygredd dŵr.

**217.** Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod y term “difrifol” yn amwys ac yn agored i’w ddehongli. Pwysleisiodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bwysigrwydd dehongliad cyson o’r term ar draws cyfundrefnau rheoleiddio. Roedd consensws y dylid cynnwys esboniad pellach o ystyr “difrifol” mewn canllawiau.

## Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

### Ystyr “tomen” a “thomen nas defnyddir”

**218.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog yr ystyriwyd y diffiniadau presennol o “domen” yn Rheoliadau 1999 a 2014 wrth benderfynu ar y diffiniad yn y Bil. Roedd o’r farn bod y diffiniad yn y Bil yn haws i’w ddeall.[154]

**219.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad yw’r diffiniad o “domen” yn y Bil yn gulach na’r diffiniad presennol. Ychwanegodd nad yw absenoldeb enghreifftiau penodol yn golygu, at ddibenion y Bil hwn, nad ydynt o fewn cwmpas y diffiniad.

**220.** Pan ofynnwyd iddo pam nad yw’r Bil yn cynnwys diffiniad annibynnol o “domen nas defnyddir”, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod angen i’r diffiniad

[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, y Rhwydwaith Gweithredu Glo
[154] Cofnod y trafodion, paragraff 251, 6 Mawrth 2025

ffitio i mewn a pheidio â gwrthdaro yn erbyn Rheoliadau 1999 a 2014, sy'n berthnasol i fwyngloddiau a chwareli gweithredol.[155] Ychwanegodd y canlynol:

> *"If we created a stand-alone definition…we could inadvertently create an error here, a gap in the description of active or disused tips. We might even create an overlap in definitions, as well, so neither of those would be good in terms of the application of good law, good policy."[156]*

**221.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y pŵer gwneud rheoliadau i ddiwygio ystyr "tomen nas defnyddir" yn rhoi hyblygrwydd i ymateb os bydd amgylchiadau'n newid.[157] Ailadroddodd y byddai'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Ystyr "bygythiad i les pobl"

**222.** Dywedodd Madeline Rees (Llywodraeth Cymru) fod ystyr "bygythiad i les dynol" yn wirioneddol eang, a'i fod yn golygu llawer mwy na dim ond yr hyn y gellid meddwl amdano yn nhermau bywyd dynol.[158]

**223.** Pan ofynnwyd iddo esbonio beth mae 'difrifol' yn ei olygu yng nghyd-destun y diffiniad, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"There's a reason we put 'serious' in there, which is to avoid 'any' impact on human welfare encompassed within this, which is a slightly low threshold, because if we didn't have the qualification of 'serious', then any possible threat to human welfare, irrespective of the severity of that, could be included, whether it's slight or negligible; it would make the Bill unworkable."[159]*

**224.** Ychwanegodd y canlynol:

> *"It is the ordinary meaning of 'serious', and I think it's well understood. It's something that is significant or dangerous because of the possibility of danger of risk. The qualification*

[155] Cofnod y trafodion, paragraff 93, 12 Rhagfyr 2024
[156] Cofnod y trafodion, paragraff 95, 12 Rhagfyr 2024
[157] Cofnod y trafodion, paragraff 96, 12 Rhagfyr 2024
[158] Cofnod y Trafodion, paragraffau 27 i 29, 12 Rhagfyr 2024
[159] Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 12 Rhagfyr 2024

*'serious' will allow the authority to make that judgment considering all those surrounding circumstances."*[160]

## Ein barn ni

Nodwn y pryderon a godwyd mewn tystiolaeth bod y diffiniad o "domen" yn y Bil yn gulach na'r diffiniad presennol yn Rheoliadau 1999 a 2014. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi rhoi sicrwydd i ni nad yw hyn yn wir. Rydym yn fodlon, felly, â'r diffiniad o "domen" yn y Bil.

Rydym yn derbyn rhesymeg y Dirprwy Brif Weinidog dros y dull a ddefnyddiwyd i ddiffinio "tomen nas defnyddir". O ystyried hyn, rydym yn fodlon ar y diffiniad.

Nodwn y byddai'r pwerau yn adrannau 81(4) a (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "domen nas defnyddir" a dileu rhai tomenni o gylch gwaith y Bil. Mae gan hyn y potensial i newid cyrhaeddiad y gyfundrefn newydd yn sylfaenol. Rydym yn disgwyl i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad llawn ar unrhyw newid arfaethedig i'r diffiniad neu'r modd mae'r Bil yn cael ei gymhwyso. Er mwyn eglurder a sicrwydd, credwn y dylid diwygio'r Bil i ddarparu ar gyfer hyn.

Rydym yn fodlon ar y diffiniad o "fygythiad i les dynol". Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a yw "difrod i eiddo" yn cynnwys marwolaeth da byw ar dir comin ac a yw "tarfu ar gyflenwad dŵr" yn cynnwys llygredd dŵr.

## Argymhellion

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid, cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau tomenni nas defnyddir, a'r cyhoedd yn ehangach, cyn cyflwyno rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn adran 81(4) a (5).

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r canlynol mewn perthynas â'r diffiniad o "fygythiad i les dynol":

- a yw "difrod i eiddo" yn cynnwys marwolaeth neu niwed i dda byw ar dir comin, ac

[160] Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 12 Rhagfyr 2024

- a yw “tarfu ar gyflenwad dŵr” yn cynnwys llygredd dŵr.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Cyflwynodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **12 Rhagfyr 2024** | **Huw Irranca-Davies AS - Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,** Llywodraeth Cymru<br>**Chris Jones,** Llywodraeth Cymru<br>**Madeline Rees,** Llywodraeth Cymru |
| **30 Ionawr 2025** | **Alison Young,** Comisiwn y Gyfraith |
| | **Dominic Driver,** Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Carl Banton,** Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio<br>**Rick Brunt,** Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| | **Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE,** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Stephen Williams,** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>**Jacqueline Mynott,** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>**Y Cynghorydd Stephen Thomas,** Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>**Kevin Kinsey,** Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| **5 Chwefror 2025** | **Yr Athro Robert Lee,** Prifysgol Birmingham – ar ran Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA) |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| | **Daniel Therkelsen,**<br>Y Rhwydwaith Gweithredu Glo<br>**Haf Elgar,**<br>Cyfeillion y Ddaear Cymru |
| | **Nick Horsley,**<br>Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau Cymru<br>**John Carlon,**<br>Cymdeithas Agregau Prydain |
| **6 Mawrth 2025** | **Huw Irranca-Davies AS - Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Chris Jones,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Madeline Rees,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **DMQTWB01** | Unigolyn (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB02** | Cyngor Sir Ynys Môn (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB03** | Y Rhwydwaith Gweithredu Glo (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB04** | Sefydliad Peirianwyr Sifil: Cymru (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB05** | Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB06** | Cyfeillion y Ddaear Cymru (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB07** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **DMQTWB08** | Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB09** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **DMQTWB10** | Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA) (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB11** | Swyddfa Archwilio Cymru |
| **DMQTWB12** | Jacobs UK Limited (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB13** | Thomas Glyn Watkin (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB14** | Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB15** | Stephen Smith (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB16** | Cyngor Sir Gâr (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB17** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **DMQTWB18** | Y Sefydliad Adeiladu Siartredig (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB19** | Cyngor Sir Penfro (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB20** | Buglife (Saesneg yn unig) |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **DMQTWB21** | Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru – Grŵp Peirianneg Daear (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB22** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB23** | Sefydliad Deunyddiau, Mwynau a Mwyngloddio (IOM3) (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB24** | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB25** | Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau Cymru (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB26** | Comisiwn y Gyfraith (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB27** | British Aggregates Association (Saesneg yn unig) |
| **DMQTWB28** | Arolwg Daearegol Prydain (Saesneg yn unig) |